

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Diwygio ein Senedd

Llais cryfach i bobl Cymru

Mai 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/SeneddDiwygio

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDiwygio@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Diwygio ein Senedd

Llais cryfach i bobl Cymru

Mai 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 6 Hydref 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDiwygio

Aelodau cvfredol v Pwvllaor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Elin Jones AS
Plaid Cymru



Siân Gwenllïan AS
Plaid Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Darren Millar AS
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd y cynghorwyr polisi canlynol yn bresennol ac fe wnaethant gyfrannu i gyfarfodydd y Pwyllgor:

- Geraint Day (Plaid Cymru)
- Owen John (Llafur)
- Roger Pratt (Ceidwadwr)
- Neil Schofield-Hughes (Democrat Rhyddfrydol)

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	7
Argymhellion	9
1. Cyflwyniad.....	13
Ein sefydliad.....	13
Ein hagwedd at ein gwaith.....	13
Ein rhagflaenwyr	14
Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad	14
Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd	15
Ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid	16
2. Amserlenni	18
3. Maint	19
Maint y Senedd	19
Ein barn ni	21
Maint Llywodraeth Cymru	23
Ein barn ni	24
Nifer y Dirprwy Lywyddion a Chomisiynwyr y Senedd	25
4. Y system etholiadol	26
Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg	27
Ein barn ni	28
Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	29
Ein barn ni	31
Cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestrau	32
Ein barn ni	33
Trosi pleidleisiau'n seddi.....	34
Ein barn ni	38
Trothwyon Pleidleisio	38

Materion eraill sy'n gysylltiedig â system rhestr gyfrannol gaeedig	39
Papurau pleidleisio	39
Seddi gwag	39
Newidiadau plaid wleidyddol.....	40
5. Mesurau Amrywiaeth.....	42
Cwotâu rhywedd.....	42
Ein barn ni	44
Data Amrywiaeth Ymgeiswyr	45
Ein barn ni	46
Rhannu swyddi	47
Ein barn ni	48
Mesurau ehangach i gynyddu amrywiaeth.....	49
Ein barn ni	51
Rheoli risgiau cymhwysedd deddfwriaethol.....	53
Ein barn ni	54
6. Ffiniau etholaethol ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026	55
Paru 40 etholaeth bresennol y Senedd i greu 20 etholaeth aml-Aelod	56
Ein barn ni	58
Defnyddio'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol i greu 17 o etholaethau aml-Aelod ..	58
Ein barn ni	60
Defnyddio'r 32 o etholaethau arfaethedig San Steffan i greu 16 o etholaethau aml-Aelod	61
Ein barn ni	64
7. Adolygiadau o'r ffiniau	66
Y pŵer cyfreithiol i gynnal adolygiadau	66
Pwy ddylai fod yn gyfrifol am adolygiadau o ffiniau'r Senedd?	66
Ein barn ni	68
Pa mor aml y dylid adolygu ffiniau'r Senedd?	69

Ein barn ni	70
Yr angen am amserlenni ar gyfer adolygu ffiniau a dosrannu seddi?	71
Ein barn ni	71
Paramedrau adolygu ffiniau a dosrannu seddi	71
Nifer yr etholaethau, rhanbarthau neu ardaloedd etholiadol eraill	73
Ein barn ni	73
Yr amrywiad derbyniol yn nifer yr Aelodau i'w hethol fesul ardal etholiadol	74
Ein barn ni	76
I ba raddau y dylid cynnal cyd-drawiad â wardiau awdurdodau lleol	76
I ba raddau y dylid cynnal cyd-drawiad â ffiniau San Steffan	76
Rhyngweithiad paramedrau eraill, gan gynnwys yr amrywiad derbyniol yn nifer yr etholwyr fesul etholaeth	77
Ein barn ni	78
Gweithredu adolygiad	79
Ein barn ni	79
Rhoi effaith i gynigion comisiwn ffiniau	80
Y paramedrau penodol ar gyfer cynnal adolygiad cyn etholiadau'r Senedd yn 2026	80
Ein barn ni	81
Atodiad 1: Cyfarfodydd preifat â rhanddeiliaid	83
Atodiad 2: Rhestr o'r wybodaeth ysgrifenedig	85
Atodiad 3: Egwyddorion allweddol y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad	86
Atodiad 4: Systemau etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr	88
Beth yw systemau etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr?	88
Rhestr agored	88
Rhestr gaeedig	89
Rhestr hyblyg	89

Atodiad 5: Trefniadau adolygu ffiniau seneddol mewn mannau eraill yn y DU90

Trefniadau adolygu ffiniau seneddol y DU.....90

Paramedrau Adolygu Ffiniau Senedd yr Alban.....90

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi dysgu llawer inni. Mae gwleidyddiaeth yn bwysig. Mae sut rydym yn gwneud ein gwleidyddiaeth yn bwysig hefyd. Mae ein democratiaeth yn werthfawr a rhaid ei meithrin a'i gwella. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio gwneud hynny: mae'n nodi cynllun trawsbleidiol ar gyfer senedd gryfach i gynrychioli pobl Cymru a llwybr i'n harwain ni yno. Mae'r diwygiad hwn yn hanfodol ac mae modd ei gyflawni cyn 2026.

Mae adroddiad y Pwyllgor hwn yn sefyll ar y sylfeini a sefydlwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol a Phwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd.

Wrth fwrw ymlaen â'n cyfrifoldebau, ni wnaethom geisio ailadrodd y swm o dystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol drwy ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaeth arbenigol. Yn hytrach, gwnaethom geisio cyflwyno cynnig trawsbleidiol ar ble yr awn yn awr mewn perthynas â diwygio etholiadol.

Serch hynny, rydym yn hynod ddiolchgar i'r ystod eang o randdeiliaid a'n cynorthwyodd yn ystod ein trafodaethau. Yn syml iawn, byddai wedi bod yn amhosibl inni ddod i'n casgliadau heb eu cymorth hwy. Roedd cyhoeddiad gan bleidiau'r Cytundeb Cydweithredu ar 10 Mai 2022 hefyd wedi llywio trafodaethau'r Pwyllgor hwn, er mai ein penderfyniadau ni yw'r rhai y manylir arnynt yn yr adroddiad hwn.

Rwyf hefyd yn hynod ddiolchgar i'm cyd-Aelodau, a ymgysylltodd yn gyson ac yn adeiladol â'r gwaith heriol hwn. Yn anochel, rydym wedi cael amrywiaeth o safbwyntiau ar wahanol faterion yn ymwneud â Diwygio'r Senedd, ac mae rhai ohonynt wedi arwain at safbwyntiau lleiafrifol (y ceir y manylion yn yr adroddiad hwn). Serch hynny, bu ewyllys drawiadol yn gyson ar bob ochr i geisio deall safbwyntiau eraill, ac i nodi tir cyffredin. Hoffwn hefyd ddiolch i'n cyn-gydweithiwr yn y Pwyllgor, Darren Millar, am ei gyfraniadau meddylgar niferus i drafodaethau'r Pwyllgor dros y saith mis diwethaf, cyn iddo ymddiswyddo'n hwyr tuag at gam olaf un ein trafodaethau.

Ar ran y pwyllgor cyfan, hoffwn hefyd ddiolch i'r tîm integredig o swyddogion sydd wedi darparu gwasanaeth rhagorol inni. Ni allem fod wedi cyflawni'r dasg heb gefnogaeth anweledig y gweision cyhoeddus hynod hyn.

Yn ein hadroddiad rydym wedi dod i'r casgliad y dylid cynyddu maint y Senedd i 96. Mae hyn yn ymwneud â chydabod bod Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau hollbwysig sy'n effeithio ar fywydau miliynau o bobl yng Nghymru, a bod angen craffu'n effeithiol ar y penderfyniadau hynny.

Rydym hefyd wedi argymhell ystod o fesurau i gynyddu amrywiaeth y Senedd, i'w galluogi i adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn well. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cwtâu rhywedd deddfwriaethol, gan fynd i'r afael â thangynrychiolaeth grŵp mwyafrifol yng Nghymru.

Rydym wedi cyflwyno cynigion manwl ar ein system etholiadol, sy'n mynd i'r afael ag anfodlonrwydd eang y cyhoedd ar y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol, lle mae gennym rai Aelodau wedi'u hethol drwy'r system y cyntaf i'r felin, ac eraill drwy Gynrychiolaeth Gyfrannol.

Mae'r adroddiad hwn ymhell o fod ar ddiwedd y daith i ddiwygio'r Senedd. Bydd angen mynd i'r afael yn ddi-oed â'r cam nesaf – sef datblygu Bil Llywodraeth Cymru i roi'r newidiadau deddfwriaethol hyn ar waith. Yna rhaid i'r ddeddfwriaeth honno basio'n llwyddiannus drwy archwiliad seneddol cyn y gall unrhyw brosesau adolygu ffiniau ddechrau. Mae'r achos dros newid yn un brys. Yma mae gennym gyfle i wneud gwahaniaeth i genedlaethau i ddod. Mae cwblhau'r camau hyn cyn etholiad 2026 yn hanfodol er mwyn bwrw ymlaen â'n democratiaeth, a chyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae'r newid hwn yn hanfodol ac mae modd ei gyflawni cyn 2026. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflwyno'n ddi-oed gynnig ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwn (ar gyfer 8 Mehefin 2022). Credwn y bydd hyn yn rhoi mandad clir i Lywodraeth Cymru ddechrau gwaith ar ddeddfwriaeth i roi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith.

Credwn y bydd hyn yn ei dro yn darparu llwybr clir at ddiwygio ein deddfwrfa, a thrwy hynny roi llais cryfach i bobl Cymru.

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod diwygio'r Senedd yn cael ei roi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026. O ganlyniad i hyn bydd angen cyflawni rhai agweddau ar sail dros dro..... Tudalen 18
- Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod gan y Senedd 96 o Aelodau..... Tudalen 22
- Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod maint newydd y Senedd yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Tudalen 23
- Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o'r cwestiwn ynghylch a fyddai unrhyw gynnydd ym maint Llywodraeth Cymru yn briodol, o ystyried y ffaith y byddai angen cynnal mwy o waith craffu. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau..... Tudalen 24
- Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau. Tudalen 25
- Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy na phedwar Aelod o Gomisiwn y Senedd pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau..... Tudalen 25
- Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod y Senedd yn cael ei hethol gan ddefnyddio rhestrau cyfrannol caeedig..... Tudalen 34
- Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod seddi'n cael eu dyrannu i bleidiau gan ddefnyddio fformiwla D'Hondt. Tudalen 38
- Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod lleoedd gwag sy'n codi rhwng etholiadau o dan y system rhestr gyfrannol gaeedig yn cael eu llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr plaid.
..... Tudalen 39
- Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried canlyniadau Aelod yn newid plaid wleidyddol lle mae wedi cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig..... Tudalen 41

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig..... Tudalen 45

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell gosod gofyniad deddfwriaethol ar Awdurdod Ddatganoledig yng Nghymru i gasglu a chyhoeddi data dienw ar amrywiaeth ymgeiswyr.
..... Tudalen 47

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd. Tudalen 49

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r ddau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis Cadeirydd Pwyllgor). Tudalen 49

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod pwyllgor perthnasol yn ystyried sut y gellir gwneud rhagor o waith i ystyried rhinweddau a goblygiadau cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion ar wahân i rywedd, Rydym yn rhagweld y bydd yr ystyriaeth hon yn llywio penderfyniadau ynghylch a fydd cwotâu o'r fath, mewn amser, yn fecanwaith effeithiol ar gyfer annog ethol Senedd fwy amrywiol, ar amser priodol yn y dyfodol. Tudalen 52

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau sy'n annog pob plaid wleidyddol sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad Senedd i gyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan nodi sut y mae wedi ceisio hwyluso amrywiaeth o fewn ei hymgeiswyr, o leiaf chwe mis cyn etholiad y Senedd sydd wedi'i drefnu..... Tudalen 52

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw ein hargymhellion ar ddiwygio'r Senedd ar gyfer 2026 yn cael eu rhoi mewn perygl gormodol o atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys..... Tudalen 54

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell bod etholiad 2026 yn defnyddio'r 32 o etholaethau terfynol Senedd y DU a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ôl iddo gwblhau ei Adolygiad Seneddol ar gyfer 2023. Bydd yr etholaethau hyn yn cael eu paru i greu 16 o etholaethau aml-Aelod newydd. Tudalen 64

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai etholaethau'r Senedd alinio, i ddechrau, ag etholaethau Senedd y DU at ddiben etholiad 2026, ond na ddylent fod yn gydffiniol yn awtomatig. Tudalen 65

Argymhelliad 20. Rydym yn argymhell y dylid rhoi'r pŵer i adolygu ffiniau'r Senedd, gan gynnwys y pŵer i ddiffinio etholaethau aml-Aelod ar gyfer etholiad 2026 i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Tudalen 68

Argymhelliad 21. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth Diwygio'r Senedd gymryd camau i ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adlewyrchu ei swyddogaethau newydd. Dylai hyn gynnwys unrhyw addasiadau priodol i'w gyfluniad, ei llywodraethiant, ei drefniadau staffio a'i adnoddau ariannol. Tudalen 68

Argymhelliad 22. Rydym yn argymhell y dylid cynnal adolygiad llawn o'r ffiniau yn nhymor y Senedd hon, gyda'r argymhellion i ddod i rym o etholiad Senedd 2031 ymlaen. Tudalen 70

Argymhelliad 23. Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys gofyniad i gynnal adolygiadau llawn o'r ffiniau yn gyfnodol, gyda darpariaethau priodol cyfyngedig ar gyfer adolygiadau interim os bydd angen. Tudalen 71

Argymhelliad 24. Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys amserlenni ar gyfer y prosesau sy'n gysylltiedig ag adolygiad llawn o'r ffiniau'r Senedd. Tudalen 71

Argymhelliad 25. Rydym yn argymhell bod nifer etholaethau'r Senedd yn cael ei nodi fel 16 mewn deddfwriaeth sylfaenol. Tudalen 74

Argymhelliad 26. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi y dylai pob etholaeth ethol yr un nifer o Aelodau o'r Senedd. Tudalen 76

Argymhelliad 27. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth diwygio'r Senedd ddarparu bod wardiau awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio fel y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer dylunio etholaethau ac na ddylai comisiwn ffiniau fel arfer rannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Tudalen 76

Argymhelliad 28. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi fel paramedrau ar gyfer adolygiadau o'r ffiniau bod etholaethau'r Senedd yn cynnwys tua'r un nifer o etholwyr, amrywiad derbyniol yn yr etholwyr fesul etholaeth a pharamedrau perthnasol eraill.... Tudalen 78

Argymhelliad 29. Rydym yn argymhell y dylai argymhellion y comisiwn ffiniau gael eu rhoi ar waith heb ofyniad am gymeradwyaeth y Senedd a heb unrhyw bŵer gan weinidogion y llywodraeth i ddiwygio argymhellion o'r fath, ac eithrio pe bai'r comisiwn ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau. Tudalen 79

Argymhelliad 30. Rydym yn argymell bod Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud, o fewn amserlen realistig ond cyflym, is-ddeddfwriaeth i roi effaith i argymhellion y comisiwn ffiniau. Tudalen 80

Argymhelliad 31. Rydym yn argymell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau i alluogi proses symlach ar gyfer adolygu ffiniau, at ddiben diffinio'r 16 o etholaethau aml-Aelod arfaethedig. Dylid cwblhau hyn mewn digon o amser i allu gweithredu'r argymhellion, ac er mwyn i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol wneud paratoadau angenrheidiol cyn etholiad 2026. Tudalen 82

1. Cyflwyniad

Ni yw'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, sef pwyllgor trawsbleidiol o Aelodau o'r Senedd a sefydlwyd ar 6 Hydref 2021, gyda'r cylch gwaith i:

- ystyried y casgliadau y daeth y *Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd* iddynt yn flaenorol yn y Bumed Senedd; ac
- erbyn 31 Mai 2022, gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd.

Ein sefydliad

1. Wrth sefydlu ein Pwyllgor, penderfynodd y Senedd hefyd, lle mae angen pleidlais i waredu busnes, y bydd pleidleisio yn y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn gweithredu fel a ganlyn:

- dim ond wrth arfer pleidlais fwrw y caiff y cadeirydd bleidleisio;
- ni chaiff y Llywydd bleidleisio;
- caiff pob aelod arall o'r Pwyllgor bleidleisio ac, os ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol, mae pob aelod yn cael un bleidlais ar gyfer pob aelod o'r grŵp gwleidyddol y mae'n perthyn iddo (gan gynnwys ei hun a'r Llywydd a'r Dirprwy os ydynt yn aelodau o'i grŵp gwleidyddol);
- rhaid pasio penderfyniad i gytuno ar argymhellion i'r Senedd ar bleidlais lle mae'r aelodau sy'n pleidleisio o blaid yn cario o leiaf 40 pleidlais.

Ein hagwedd at ein gwaith

2. Cynhaliwyd ein gwaith mewn tri cham gwahanol:

- **Cam Un:** nodwyd lle roedd tir cyffredin rhwng safbwyntiau polisi ein pleidiau gwleidyddol, mewn perthynas â chasgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar y canlynol:
 - maint y Senedd a'r system etholiadol gysylltiedig;
 - sefydlu trefniadau parhaus i adolygu'r ffiniau a dosrannu seddi; a
 - mesurau deddfwriaethol i annog amrywiaeth.
- **Cam Dau:** yn seiliedig ar y meysydd hyn o dir cyffredin, casglwyd gwybodaeth bellach sy'n angenrheidiol er mwyn inni ddatblygu ein cynigion polisi;
- **Cam Tri:** datblygwyd argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd.

3. Cynrychiolwyd y Ceidwadwyr Cymreig ar y Pwyllgor hyd nes i Darren Millar AS ymddiswyddo ar 10 Mai 2022, yn ystod ein trafodaethau Cam 3.

Ein rhagflaenwyr

4. Wrth fwrw ymlaen â'n gwaith roeddem yn ddyledus i'r wybodaeth a'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol gan ein rhagflaenwyr uniongyrchol: y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ("y Panel Arbenigol") a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd.

Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

5. Roedd Deddf Cymru 2017 yn datganoli pwerau i'r Senedd mewn perthynas â'i maint a'i threfniadau etholiadol. Ym mis Chwefror 2017, gan ragweld y daw pwerau o'r fath i rym, sefydlodd Comisiwn y Senedd y Panel Arbenigol.

6. Roedd adroddiad y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*¹ yn argymhell 20 i 30 o Aelodau ychwanegol, wedi'u hethol drwy system etholiadol fwy cyfrannol gydag atebolrwydd i etholwyr ac amrywiaeth yn ganolog iddi. Yn flaenorol, aethpwyd i'r afael â nifer o argymhellion y Panel yn ymwneud ag etholfraint y Senedd (hynny yw, pwy sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd) o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

¹ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017

Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

7. Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd i archwilio argymhellion y Panel Arbenigol. Cyhoeddodd ei adroddiad *Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf*² ym mis Medi 2020.

8. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r Panel Arbenigol y dylid cynyddu maint y Senedd i 80-90 o Aelodau, ond mae'n nodi y byddai angen i hyn "gael e[i] lywio gan benderfyniadau ar y system etholiadol benodol a'r modelau ffiniau y gellir dod i gonsensws gwleidyddol yn eu cylch".³ Nododd fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yr oedd wedi'i chlywed wedi "mynegi pryder ynghylch a oes gan Senedd â 60 Aelod ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol".⁴ Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn gwrthwynebu cynnydd yn nifer yr Aelodau, ond roedd yn nodi fod hyn yn gyffredinol "oherwydd pryderon ynghylch costau posibl, yn hytrach na dadleuon bod nifer bresennol yr Aelodau'n briodol."⁵

9. Ar ôl ystyried rhinweddau'r tri opsiwn a gynigiwyd gan y Panel Arbenigol ar gyfer y system etholiadol, cytunodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y dylai Aelodau o'r Senedd gael eu hethol drwy system y Bleidlais Sengl Drosgrwyddadwy. Fel egwyddorion arweiniol, nododd y dylai unrhyw system fod yn symlach i bleidleiswyr fwrw eu pleidleisiau, dylai pleidleiswyr allu "mynegi dewisiadau rhwng ymgeiswyr a enwir"⁶ a dylai'r pleidleisiau arwain at ganlyniadau cyfrannol yn gyffredinol.

10. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn nodi bod y pandemig COVID-19 wedi ei atal rhag bwrw ymlaen â'i waith yn archwilio trefniadau'r adolygiad o ffiniau etholiadol ac nad oedd felly wedi dod i gasgliadau pendant ar y mater. Fodd bynnag, canfu'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd "ei fod yn anghyson ac yn anghynaliadwy"⁷ nad oes mecanwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer adolygu ffiniau'r Senedd. Ar y sail hon, argymhellodd y dylid cyflwyno cynigion deddfwriaethol i sefydlu trefniadau adolygu ac mai corff adolygu ffiniau annibynnol ddylai fod yn gyfrifol am adolygiad o'r fath.

11. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd amrywiaeth o argymhellion yn ymwneud ag annog ethol Senedd fwy amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- galw am gychwyn adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag etholiadau yng Nghymru i orfodi pleidiau gwleidyddol i gasglu, gwneud yn ddienw a

² Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020

³ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 46

⁴ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 22

⁵ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 28

⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 88

⁷ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 149

chyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr, neu fel arall, i bleidiau gwleidyddol wneud hyn yn wirfoddol;

- sefydlu gweithgor trawsbleidiol i archwilio'n fanwl ymarferoldeb galluogi etholiad ar sail rhannu swydd;
- sefydlu cronfa mynediad i swyddi etholedig i gynorthwyo pobl ag anableddau i sefyll etholiad, gan ystyried hefyd estyn y cymhwysedd i gael cyllid i grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- eithrio treuliau sy'n ymwneud â chostau gofal plant ymgeisydd neu gyfrifoldebau gofalu eraill o derfynau gwariant ymgrych etholiadol;
- wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys cwtâu rhywedd deddfwriaethol ar gyfer ymgeiswyr mewn cynigion diwygio, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am unrhyw ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd ystyried i ba raddau y byddai darpariaethau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; a
- dylid gwneud rhagor o waith ar gwtâu amrywiaeth mewn perthynas â nodweddion heblaw rhywedd i lywio penderfyniadau ynghylch a fyddai cwtâu o'r fath yn ddulliau priodol o annog ethol Senedd fwy amrywiol.

Ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid

12. Yn ystod Cam Dau, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd preifat na chawsant eu cyfyngu gan Reolau Sefydlog y Senedd, er mwyn hwyluso trafodaethau rhyngweithiol gonest ac agored gydag ystod o randdeiliaid. Rydym yn cyfeirio at gyfarfodydd o'r fath yn yr adroddiad hwn fel 'cyfarfodydd preifat'.

13. Gwahoddwyd hefyd randdeiliaid a oedd wedi darparu gwybodaeth yn flaenorol i'n rhagflaenwyr i ddiweddarau gwybodaeth o'r fath os am wneud hynny, ond fel arall nid oeddwm am ddyblygu'r sail dystiolaeth hon. Yn hytrach, defnyddiwyd y wybodaeth hon fel llwyfan i ddatblygu cytundeb ar draws ein pleidiau gwleidyddol unigol.

14. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl randdeiliaid a ymgysylltodd â ni wrth inni gasglu'r wybodaeth angenrheidiol inni ddatblygu ein cynigion polisi. Heb eu cyfraniadau byddai wedi bod yn amhosibl inni gwblhau'r darn heriol hwn o waith.

15. Mae Atodiad 1: **Cyfarfodydd preifat â rhanddeiliaid** yn nodi manylion am ein cyfarfodydd preifat gyda rhanddeiliaid amrywiol.

16. Mae Atodiad 2: **Rhestr o'r wybodaeth ysgrifenedig** yn nodi manylion am unigolion a sefydliadau a gyflwynodd wybodaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ar ôl inni ofyn a fyddent am ddiweddarau gwybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol i'n rhagflaenwyr.

2. Amserlenni

Mae'r ffordd i ddiwygio'r Senedd eisoes wedi bod yn un hir, ac mae milltiroedd lawer i fynd eto. Ond credwn yn unfrydol ei bod yn bosibl ac yn ddymunol i'r rhan fwyaf o'r diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn gael eu gweithredu mewn pryd ar gyfer etholiad 2026.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod diwygio'r Senedd yn cael ei roi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026. O ganlyniad i hyn bydd angen cyflawni rhai agweddau ar sail dros dro.

17. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am amserlen dynn a heriol. At ddibenion enghreifftiol, rydym wedi datblygu'r amserlen ddangosol a ganlyn:

Proses	Terfyn amser
Ein hadroddiad	Mai 2022
Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil ar gyfer diwygio'r Senedd	Gorffennaf - Medi 2023
Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol	Mai 2024
Dechrau'r adolygiad o'r ffiniau	Mai 2024
Cwblhau'r adolygiad o'r ffiniau	Ebrill 2025 Mae'n rhoi blwyddyn i gyflwyno offeryn i weithredu argymhellion yr adolygiad o'r ffiniau, i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol baratoi ar gyfer etholiad
Etholiadau'r Senedd	Mai 2026

3. Maint

Mae Senedd heddiw yn sefydliad gwahanol iawn i'r un a sefydlwyd ym 1999. Bryd hynny, nid oedd ganddi unrhyw bwerau deddfu sylfaenol ac nid oedd wedi'i gwahanu'n ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Erbyn hyn, mae'n gyfrifol am gytuno ar drethi Cymru ac am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn rhai o'r meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl yng Nghymru.

Maint y Senedd

18. Yn unol â hynny, nid yw trafodaethau ynghylch maint y Senedd yn newydd. Yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard gynyddu nifer yr Aelodau fel rhan o wahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa, a'r newid tuag at ddod yn gorff deddfu sylfaenol.⁸

19. Yn yr un modd roedd y Panel Arbenigol o'r farn y dylid cynyddu maint y Senedd i:

*"80 Aelod fan lleiaf, ac yn ddelfrydol i 90 Aelod, i sicrhau bod gan y senedd a etholir [...] ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran craffu ar bolisi, deddfwriaeth a chyllid, ac y gall yr Aelodau hefyd gyflawni eu rolau fel cynrychiolwyr, ymgrychwyr, gwleidyddion, a rolau eraill."*⁹

20. Yn yr un modd, roedd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn ystyried:

"Dylid cyflwyno deddfwriaeth ar ddechrau'r Chwched Senedd i gynyddu maint y Senedd [...] [gan g]ynyddu nifer yr Aelodau i ffigur sy'n fwy priodol ar gyfer cyfrifoldebau'r ddeddfwrfa'n arwain at gynnydd cyfatebol yn effeithiolrwydd ac effaith gwaith craffu a goruchwylio'r Senedd. Mewn sefydliad mwy o faint, gallai fod yn fwy posibl ymgysylltu â phobl a rhanddeiliaid ar draws Cymru, gallai fod mwy o gyfle i'r Aelodau arbenigo a meithrin arbenigedd, gallai fod mwy o gyfleoedd ar gyfer meddwl yn greadigol ac yn strategol, gellid cael system bwyllgorau fwy cydnerth, a gellid cynnig cyfle i ddatblygu system fwy cadarnhaol a diwylliant gwleidyddol adeiladol sy'n hwyluso mwy o waith trawsbleidiol a chydweithredol. Gallai gwelliannau o'r fath gyfrannu at well deddfwriaeth, penderfyniadau polisi a

⁸ Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Comisiwn Richard, Gwanwyn 2004, tudalen 259

⁹ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, Argymhelliad 1, tudalen 28

gwariant mwy effeithiol, gwell gwerth am arian ac, yn bwysicaf oll, well canlyniadau i bobl a chymunedau Cymru.”¹⁰

21. Dywedodd y Panel Arbenigol hefyd, er y byddai cynyddu maint y Senedd i 80 o Aelodau yn dod â manteision o ran ei capasiti i gyflawni gwaith craffu, byddai'r manteision hyn yn cynyddu ymhellach ar ben uchaf yr ystod 80-90, gan nodi:

“Byddai ffigur sy'n nes at 80 yn sicr yn cryfhau'r sefydliad ac yn gwella'i allu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Ar y pegwn arall, byddai mwy o fanteision, gan wneud mwy o wahaniaeth ystyrlon yng ngallu llawer o'r Aelodau i arbenigo, a byddai budd yn sgil hynny o ran y gwaith craffu a chynrychioli. Byddai ffigur ar y pegwn uchaf hefyd yn osgoi'r risg y byddai angen ailystyried mater capasiti yn y dyfodol agos, pe byddai cyfrifoldebau'r Cynulliad yn cynyddu fwy fyth.”¹¹

22. Bu'r Panel Arbenigol hefyd yn ystyried rhinweddau cynyddu'r maint y tu hwnt i 90, gan nodi ar y pryd:

“Rydym yn cydnabod y gallai'r pryder posibl ymhlith y cyhoedd am y costau gynyddu yn sgil hyn. Ar y llaw arall, rydym hefyd yn cydnabod y byddai'r manteision o ran capasiti ac arbenigedd posibl hefyd yn parhau i gynyddu. Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai'r ychydig fuddion a fyddai'n deillio o hynny yn darford yn eithaf cyflym. Nid ydym, felly, wedi ein darbwyllo y byddai'r manteision i well proses graffu a ddeuai yn sgil Cynulliad o fwy na 90 Aelod o reidrwydd yn drech na'r cynnydd yn y costau.”¹²

23. Argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn yr un modd y dylid cynyddu maint y Senedd i “rhwng 80 a 90 Aelod.”¹³

24. Nodwyd ers cyhoeddi'r ddau adroddiad hyn, y bu amrywiaeth o newidiadau yn nhirwedd wleidyddol Cymru, gan gynnwys:

- mwy o gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd, sy'n deillio'n bennaf o ymadawiad y DU â'r UE;

¹⁰ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, Argymhelliad 1 a Pharagraff 43

¹¹ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 3.15

¹² Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 3.16

¹³ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, Argymhelliad 1

- cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y Senedd o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn bennaf o ganlyniad i'r pandemig COVID-19;
- newidiadau mewn ffyrdd o weithio, a ysgogwyd gan y pandemig COVID-19, a allai o bosibl leihau rhai o'r costau ariannol sy'n gysylltiedig â chynyddu nifer Aelodau o'r Senedd; a
- chadarnhad y bydd nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru yn gostwng o 40 i 32.

Ein barn ni

25. Credwn fod y newidiadau yn y dirwedd wleidyddol bellach yn ei gwneud yn fwy priodol ystyried siambr sy'n fwy na'r hyn a gynigiwyd gan y Panel Arbenigol yn 2017.

26. Credwn fod cynnydd y tu hwnt i 90 yn hanfodol i ddiogelu capasiti'r Senedd ar gyfer y dyfodol er mwyn gallu craffu ar bwerau a chyfrifoldebau cynyddol Llywodraeth Cymru. Credwn na ddylai maint y Senedd gyfyngu ar benderfyniadau'r dyfodol ynghylch datganoli pwerau. Er enghraifft, nodwn fod y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru wedi nodi'n flaenorol yn 2019 y byddai ar y pryd wedi'i chael yn anodd" [g]weld sut y gellid craffu ar Adran Gyfiawnder neu Filiau'n briodol mewn perthynas â chyfiawnder heb gynyddu maint y Cynulliad." ¹⁴

27. Credwn y bydd cynnydd yn rhoi mwy o gyfle i Aelodau unigol baratoi ar gyfer gwaith craffu, cynnal gwaith ymchwil cefndirol ac ymgysylltu â phobl Cymru i gynrychioli eu pryderon yn well. Ar hyn o bryd, mae'n gyffredin i Aelodau eistedd ar sawl Pwyllgor, gyda chyfrifoldebau craffu ar bolisi a deddfwriaeth. ¹⁵ Mae gan lawer gyfrifoldebau ychwanegol hefyd: o'r 60 o Aelodau o'r Senedd, ar hyn o bryd dim ond 26 sydd ddim yn Weinidog; Llywydd; Dirprwy Lywydd; Arweinydd Plaid; Rheolwr Busnes; Comisiynydd y Senedd neu Gadeirydd Pwyllgor. ¹⁶ Bydd cynnydd yngh nghapasiti'r Senedd yn galluogi Aelodau i arbenigo mewn maes craffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan feithrin arbenigedd a dealltwriaeth well wrth ddwyn y Llywodraeth i gyfrif. Credwn y bydd gwaith craffu gwell yn arwain at lywodraethu gwell, polisi mwy effeithiol, gwariant mwy effeithlon, a deddfwriaeth well.

¹⁴ Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*, Hydref 2019, paragraff 12.83

¹⁵ Ers 16 Mai 2020, hyd yn oed wrth eithrio aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio Etholiadol a'r Pwyllgor Busnes, mae 18 o Aelodau yn eistedd ar ddau bwyllgor; ac mae 3 Aelod yn eistedd ar dri phwyllgor.

¹⁶ Cyfrifwyd y ffigur gan swyddogion Comisiwn y Senedd ar 16 Mai 2022.

28. Credwn y byddai cynnydd hefyd yn cydnabod rôl gynyddol y Senedd yn monitro ac yn craffu ar fframweithiau cyffredin y DU gyfan,¹⁷ cytundebau rhyngwladol (gan gynnwys cytundebau masnach) a deddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar fuddiannau Cymru.¹⁸

29. Felly, mae Aelodau ein Pwyllgor wedi cytuno'n unfrydol y dylid cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau.

30. Rydym yn cydnabod bod 96 yn mynd y tu hwnt i'r ystod a argymhellwyd yn wreiddiol gan y Panel Arbenigol, ond credwn fod hwn yn addasiad cymesur, yn sgil yr amrywiaeth eang o newidiadau yn nhirwedd wleidyddol Cymru, ers i'r Panel Arbenigol adrodd. Credwn hefyd y bydd cynyddu capasiti'r Senedd i 96 yn diogelu at y dyfodol ac yn lliniaru yn erbyn cyfyngiadau o ran capasiti'r Senedd yn cwtogi ar ddadleuon ynghylch datganoli pwerau'n briodol.

31. Nodwn hefyd y bydd 96 o Aelodau yn gosod y Senedd islaw maint llawer o'i chymaryddion rhyngwladol o hyd. Yn yr adroddiad yn 2013, *Mae Maint yn Cyfrif*, roedd Prosiect Undeb sy'n Newid y DU a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru wedi gwneud gwaith manwl yn flaenorol ar faint y Senedd mewn cyd-destun rhyngwladol. Canfu ledled yr UE, mai'r nifer cyfartalog o Aelodau ar gyfer deddfwrfa gyfwerth fyddai "tua 140 o Aelodau".¹⁹

32. Bydd Senedd o 96 Aelod yn golygu y bydd un Aelod fesul 33,021 o bobl yng Nghymru.²⁰ Nododd Undeb Sy'n Newid y DU a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn flaenorol yn eu hadroddiad *Mae Maint yn Cyfrif* yn 2013, er mwyn cymharu:

*"Ar gyfer gwledydd o hyd at 10 miliwn, un fesul 22,122 o bobl yw'r gymhareb ac, yn achos gwledydd â phoblogaeth rhwng 1 a 6 miliwn, un fesul 23,566 o bobl yw'r gymhareb."*²¹

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod gan y Senedd 96 o Aelodau.

¹⁷ Dyma'r 26 o gytundebau rhynglywodraethol sy'n nodi sut y bydd llywodraethau'r DU yn cydweithio ac yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd a lywodraethwyd neu a gydgyssylltwyd yn flaenorol ar lefel yr UE, megis ansawdd aer, diogelwch bwyd a bygythiadau iechyd trawsffiniol.

¹⁸ Yn gynnar ym mis Mawrth 2022, roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer 17 o Filiau'r DU yn y Chwched Senedd, gan gwpasu oddeutu 360 o gymalau ac atodlenni. O gymharu, ym mlwyddyn gyntaf y Bumed Senedd (Mai 2016 – Mai 2017), roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod memoranda cydsyniad ar gyfer 10 Bil, gan gwpasu dim ond oddeutu 80 o gymalau ac atodlenni.

¹⁹ Undeb sy'n Newid y DU a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, *Mae Maint yn Cyfrif: Gwneud y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy effeithiol*, 2013

²⁰ Amcangyfrifir bod poblogaeth Cymru yn 3,170,000 *Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)*

²¹ Undeb sy'n Newid y DU a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, *Mae Maint yn Cyfrif: Gwneud y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy effeithiol*, 2013

33. Rydym hefyd wedi ystyried a ddylai maint y Senedd gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth.

34. Yn y DU, y dull arferol yw bod cyfanswm yr Aelodau wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae hyn yn wir ar hyn o bryd ar gyfer Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na ellir amrywio cyfanswm yr aelodau drwy unrhyw ddull arall heblaw deddfwriaeth sylfaenol.

35. Yn dechnegol, byddai modd caniatáu i gomisiwn ffiniau awgrymu amrywio nifer yr aelodau gan nifer penodol (h.y. gyda chyfyngiadau lleiafswm/uchafswm) er mwyn helpu i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal. Roedd hyn yn wir yn hanesyddol yn achos Tŷ'r Cyffredin, lle nad oedd cyfanswm yr etholaethau wedi'u pennu mewn deddfwriaeth sylfaenol. Roedd yn rhaid i nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) beidio â bod yn sylweddol fwy neu lai na 613,²² ac roedd yn rhaid i o leiaf 35 ohonynt fod yng Nghymru.²³

36. Fodd bynnag, credwn yn unfrydol na fyddai'n briodol i fater o bwysigrwydd cyfansoddiadol o'r fath gael ei amrywio drwy is-ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod maint newydd y Senedd yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Maint Llywodraeth Cymru

37. Ar hyn o bryd mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfyngu nifer Gweinidogion Cymru a'u dirprwyon i ddeuddeg unigolyn.

38. Rydym yn rhagweld y gall ein hargymhellion ar gynyddu maint y Senedd arwain at ystyriaeth o ran a ddylid bod newid cysylltiedig i'r cyfyngiad hwn.

39. O ran y mater hwn, dywedodd y Panel Arbenigol y dylai'r Senedd:

"ffrwyno'i hun yn y ffordd y mae'n gwneud defnydd o unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad—er enghraifft mewn perthynas â nifer a maint y pwyllgorau, penodi deiliaid swyddi, ac uchafswm maint Llywodraeth Cymru—i sicrhau bod y manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn

²² Deddf Etholaethau Seneddol 1986, Atodlen 2, 1(1).

²³ Deddf Etholaethau Seneddol 1986, Atodlen 2, 1(3).

cael eu gwireddu a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw i'r lleiafswm eithaf."²⁴

40. Nododd y Panel Arbenigol hefyd nad oedd wedi cael:

"...unrhyw sylwadau o blaid cynyddu nifer y Gweinidogion, ac nid ydym o'r farn bod achos cryf dros gynnydd o'r fath. Yn wir, pe bai'r Cynulliad yn dewis deddfu i gynyddu'r terfyn ar nifer y Gweinidogion yn unol ag unrhyw gynnydd ym maint y Cynulliad, byddai hynny'n effeithio'n sylweddol ar y capasiti ychwanegol i graffu."²⁵

41. Gan ychwanegu at hyn, dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd:

"Er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a ddylai'r cynnydd ym maint y Senedd gyd-fynd â chynnydd pro rata yn y terfyn ar nifer Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil academaidd i strwythur a chapasiti Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dyrannu cyfrifoldebau ymhlith Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion."²⁶

Ein barn ni

42. Rhaid i brif ddiben cynnydd mewn maint ymwneud â galluogi lefel well o gynrychiolaeth seneddol, deddfwriaeth a chraffu ar waith llywodraeth.

43. Rydym yn cydnabod y gall y Llywodraeth fod am wneud achos dros gynnydd cysylltiedig ym maint y Llywodraeth hefyd, yn arbennig os bydd newid i'r setliad datganoli. Rydym yn rhagweld y byddai angen ystyried unrhyw gynnydd o'r fath yn ofalus, mewn modd cymesur ac yn ddarostyngedig i waith craffu deddfwriaethol manwl. Mae'r cyfyngiadau amser mewn perthynas â'n gwaith wedi golygu nad yw wedi bod yn bosibl inni ddod i gasgliad ar y mater hwn. Serch hynny, credwn na ddylai fod yn benderfyniad i'r llywodraeth ar ei phen ei hun, gan y bydd unrhyw gynnydd yn ei maint yn golygu gostyngiad cyfatebol yng nghapasiti'r Senedd ar gyfer gwaith craffu.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o'r cwestiwn ynghylch a fyddai unrhyw gynnydd ym maint Llywodraeth Cymru yn briodol, o ystyried y ffaith y byddai angen cynnal

²⁴ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, Argymhelliad 3, tudalen 89

²⁵ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 8.28

²⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, Argymhelliad 3, tudalen 41

mwy o waith craffu. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau.

Nifer y Dirprwy Lywyddion a Chomisiynwyr y Senedd

44. Credwn mai'r Senedd ddylai benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r capasiti ychwanegol rydym wedi'i argymell.

45. Ar hyn o bryd mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Senedd yn ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd.

46. Gellid dadlau y dylai'r Senedd fod â hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion os yw am wneud hynny (ac unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â'r blaid y gallai ddod ohoni).

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau.

47. Ar hyn o bryd mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Senedd yn penodi'r Llywydd a phedwar Aelod o'r Senedd arall fel Aelodau o Gomisiwn y Senedd. Gellid dadlau y dylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i benodi Aelodau ychwanegol o Gomisiwn y Senedd, os yw am wneud hynny.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy na phedwar Aelod o Gomisiwn y Senedd pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau.

4. Y system etholiadol

Systemau etholiadol yw un o flociau adeiladu sylfaenol democratiaeth, gan bennu sut mae hawl unigolyn i bleidleisio yn ymwneud â chyfansoddiad terfynol ei gynrychiolwyr gwleidyddol.

48. Er mwyn asesu pa systemau a allai fod fwyaf addas ar gyfer etholiadau'r Senedd, pennodd y Panel Arbenigol egwyddorion allweddol (Atodiad 3: Egwyddorion allweddol y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad) er mwyn gwerthuso ystod o wahanol systemau etholiadol yn eu herbyn.

49. Dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd na chlywodd unrhyw dystiolaeth i'w argyhoeddi nad yw'r egwyddorion a nodir gan y Panel Arbenigol yn parhau i ddarparu fframwaith addas i ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio trefniadau etholiadol y Senedd²⁷.

50. Mae'r systemau etholiadol a oedd yn bodloni egwyddorion y Panel Arbenigol fel a ganlyn:

- Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg;
- Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy; a
- Chynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg.

51. At hynny, penderfynwyd ystyried dichonoldeb system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig. Er nad oedd hon yn un o'r systemau a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, roeddem o'r farn bod nifer o fanteision posibl i'r system.

52. Ni roddwyd ystyriaeth i'r system Cyntaf i'r Felin fel opsiwn hyfyw, ar y sail y byddai'n llai cyfrannol na'r system etholiadol bresennol (Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg), ac yn annhebygol o annog amrywiaeth o ran cynrychiolaeth.

²⁷ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 85, tudalen 56

Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg

53. Roedd y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg a ddefnyddir ar hyn o bryd yn etholiadau'r Senedd yn bodloni egwyddorion allweddol y Panel Arbenigol a dyna oedd yr opsiwn 'status quo'.

54. Dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd mai dim ond un blaid a oedd yn eirioli ar ran y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol yn ystod ei waith.²⁸ Dywedodd hefyd fod rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch i ba raddau y mae pleidleiswyr yn deall yn llawn y ffordd y mae'r system yn gweithredu, eu bod wedi beirniadu anghymesuredd cynhenid yr elfen 'Cyntaf i'r Felin' o'r system, a'u bod wedi awgrymu bod y system yn rhoi gormod o reolaeth i bleidiau yn hytrach na phleidleiswyr.

55. Mae Tabl 1: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg, fel y'u nodwyd yn flaenorol gan y Panel Arbenigol.

Tabl 1: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg

Cryfderau	Cyfyngiadau
- Roedd gwaith modelu'r Panel Arbenigol yn dangos cyfranoldeb eang, gan awgrymu y gellid disgwyl llywodraethau clymblaid cymharol sefydlog. - Wrth i'r Panel fodlu ar sail D'Hondt, a bod 40 etholaeth yn ethol un Aelod a phum rhanbarth etholiadol yn ethol rhwng saith a naw Aelod, awgrymwyd y byddai'r canlyniadau o leiaf yr un mor gyfrannol â'r system bresennol. - Mae Aelodau a etholwyd ar sail y Cyntaf i'r Felin yn cadw'r cysylltiad uniongyrchol rhwng un cynrychiolydd lleol ac etholaeth. - Gellid cynnwys mesurau yn y system i gefnogi ac annog	- Gall rhestrau caeedig ar gyfer Aelodau rhanbarthol achosi dryswch o ran a yw Aelod unigol yn atebol i bleidleiswyr neu i blaid. - Gallai dau lwybr gwahanol ar gyfer ethol achosi tensiwn rhwng Aelodau a dryswch i bleidleiswyr. - Mae rhestrau rhanbarthol caeedig yn cyfyngu ar allu pleidleiswyr i ddewis ymgeiswyr rhanbarthol. - Mae pob Aelod Rhanbarthol yn cynrychioli mwy o etholwyr nag Aelodau etholaethol. - Heb wneud unrhyw waith sylweddol ar adolygu ffiniau neu heb i nifer yr Aelodau rhanbarthol fod yn fwy na nifer yr Aelodau

²⁸ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 67, tudalen 47

Cryfderau	Cyfyngiadau
cynrychiolaeth amrywiol, er enghraifft cwtâu o ymgeiswyr neu restrau o ddynion a menywod am yn ail. - Gall pleidleiswyr bleidleisio ar wahân i ymgeisydd ar gyfer eu hetholaeth a phlaid ar gyfer eu rhanbarth. - Gellid dosrannu seddi i ranbarthau ar sail nifer yr etholwyr, neu gallent gymryd y ddaearyddiaeth wleidyddol leol i ystyriaeth. - Mae'r system wedi'i defnyddio ers 1999 yng Nghymru, ac mae'n gyfarwydd i bleidleiswyr.	etholaethol, maint mwyaf y Senedd fydd 80 Aelod.

Ein barn ni

56. Daethom i'r casgliad unfrydol pe bai maint y Senedd yn cynyddu, y byddai'n ddymunol newid y system etholiadol bresennol.

57. Nid yw Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn system hyfyw ar gyfer Senedd sy'n cynnwys mwy nag 80 o Aelodau heb naill ai gynyddu nifer yr etholaethau neu gael nifer fwy o Aelodau rhanbarthol nag Aelodau etholaethol. Nid ydym yn ystyried y naill na'r llall o'r posibiliadau yn ddymunol, a nodwyd hefyd y byddai'n amhosibl cynyddu nifer yr etholaethau mewn pryd ar gyfer etholiad 2026.

58. O'n profiad ein hunain o'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol mae Aelodau rhanbarthol yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mawr iawn, tra bod Aelodau etholaethol yn cael cyfran anghymesur o waith achos etholaeth. Mae'r gwahaniaeth hwn mewn gwaith achos rhwng Aelodau etholaethol a rhanbarthol wedi codi yn yr un modd yn yr Alban, gan ein harwain i gredu bod hyn yn ganlyniad strwythurol system sy'n ethol Aelodau etholaethol a rhanbarthol.

59. Credwn hefyd fod gofyniad y system bresennol o bapurau pleidleisio ar wahân ar gyfer pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol yn creu cymhlethdod annymunol.

60. Ystyriwn hefyd nad yw'r elfen sylweddol o 'cyntaf i'r felin' o fewn y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn hwyluso cyfranoldeb.

Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy

61. Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy yw'r system etholiadol a ffefrir gan y Panel Arbenigol, pe bai ei argymhellion ar ymyriadau deddfwriaethol i gefnogi ac annog amrywiaeth cynrychiolaeth yn cael eu gweithredu.

62. Ar ôl ystyried adroddiad y Panel Arbenigol, argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol hefyd y dylid cyflwyno deddfwriaeth i ethol Aelodau o'r Senedd drwy Bleidlais Sengl Drosoglwyddadwy. Dyma'r unig system etholiadol a argymhellwyd gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol. Mae Tabl 2: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy, fel y'u nodwyd yn flaenorol gan y Panel Arbenigol.

Tabl 2: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Pleidlais Sengl Drosoglwyddadwy

Cryfderau	Cyfyngiadau
- Roedd gwaith modelu'r Panel Arbenigol yn dangos cyfranoldeb eang, gan awgrymu y gellid disgwyl llywodraethau clymblaid cymharol sefydlog. - Roedd gwaith modelu'r Panel yn awgrymu y byddai'r canlyniadau yng Nghymru yn fwy cyfrannol na'r system bresennol, o ystyried y paramedrau a osodwyd ar gyfer maint ardaloedd. - Gwneud y mwyaf o bŵer pleidleiswyr i ddewis ymgeiswyr unigol (gan gynnwys ymgeiswyr annibynnol) yn hytrach na phleidiau. - Byddai gan yr Aelodau a etholir ym mhob etholaeth gysylltiad uniongyrchol â'u hetholwyr. - Caiff yr holl Aelodau eu hethol yn yr un ffordd ac mae ganddynt yr un mandad. - Gellid cynnwys mesurau yn y system i gefnogi ac annog	- Nid yw pleidleisio drwy roi'r ymgeiswyr a ffefrir yn eu trefn yn gyfarwydd yng Nghymru. - Gallai'r dull o drosi pleidleisiau yn seddi gael ei ystyried yn gymhleth. - Gwneud y mwyaf o bŵer pleidleiswyr i ddewis ymgeiswyr unigol (gan gynnwys ymgeiswyr annibynnol) yn hytrach na phleidiau. Gellir dadlau y gallai hyn arwain at anghydbwysedd yn ffocws yr Aelodau ar faterion etholaethol ar draul elfennau eraill o'u rolau.

Cryfderau	Cyfyngiadau
amrywiaeth, er enghraifft cwotâu ar gyfer yr ymgeiswyr. - Mwy o ddewis i bleidleiswyr, gan alluogi pleidleiswyr i fynegi cymaint neu gyn lleied o ddewisiadau ag y dymunant. - Mae cynyddu'r gynrychiolaeth gyfrannol ar lefel etholaeth yn cynyddu'r potensial i bleidleiswyr gael eu cynrychioli gan gynrychiolydd lleol o'u dewis hwy. - Gellid ei defnyddio mewn etholiadau lleol yng Nghymru yn y dyfodol.	

63. Mewn cyfarfod preifat â ni ar 23 Mawrth 2022, nododd yr Athro David Farrell er bod Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cael ei hystyried yn gymhleth weithiau:

*"it's a bit like a washing machine- if it's not working, I rely on an engineer to come and fix it, but all I need to know is which button to press and where the powder goes. With any electoral system, the voters don't need to know about the droop quota or whether it's the Gregory method for transferring surpluses [...] all the voter needs to know is that there is a ballot paper and they rank 1, 2, 3, etc."*²⁹

64. Dywedodd yr Athro Alan Renwick fod tystiolaeth gadarnhaol hefyd i'w chael o brofiad gwledydd sydd eisoes yn defnyddio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, lle'r oedd yn cael ei hystyried yn gyffredinol yn gweithio'n dda.³⁰

65. Dywedodd yr Athro David Farrell hefyd nad oedd systemau cyfrif electronig yn rhan annatod o'r defnydd o'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (gan nodi bod Gweriniaeth Iwerddon eisoes yn defnyddio'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy heb systemau cyfrif electronig). Elfen allweddol o gyfrif pleidleisiau'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yw trosglwyddo pleidleisiau rhwng ymgeiswyr ar sail dewisiadau pleidleiswyr. Mae amryw o fethodolegau ar gael i benderfynu pa bleidleisiau a drosglwyddir. Amlinellodd yr Athro Farrell, os oedd awydd i leihau lefel y siawns wrth benderfynu, pa bleidleisiau a drosglwyddwyd; byddai'n bosibl defnyddio

²⁹ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

³⁰ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

rheolau ar gyfer trosglwyddo pleidleisiau (Gregory cynhwysol wedi'i bwysoli) a oedd yn gofyn am systemau cyfrif electronig.³¹

Ein barn ni

66. Roedd lleiafrif yn ein pwyllgor (Jane Dodds AS) o blaid cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel system etholiadol newydd y Senedd. Roedd o'r farn y byddai'n galluogi cymesuredd eang, yn hwyluso pleidleiswyr i fynegi dewisiadau ar gyfer ymgeiswyr unigol mewn pleidiau eraill, yn darparu ar gyfer ethol pob Aelod ar fandad unigol ac yn gwneud y mwyaf o ddewis i bleidleiswyr (drwy allu nodi cymaint neu gyn lleied o ddewisiadau ag y dymunant). Nododd y gall pleidleiswyr bleidleisio ar gyfer Aelod etholaeth unigol ac ar gyfer rhestr plaid o dan y system bresennol: byddai'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn caniatáu i bleidleiswyr barhau i arfer y dewis hwnnw. Nid oedd yn credu bod achos cryf wedi'i wneud dros symud i ffwrdd o argymhellion y Panel Arbenigol a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd o blaid y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

67. Roedd ail leiafrif yn ein Pwyllgor (Siân Gwenllïan AS) hefyd yn ffafrio cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel system etholiadol newydd y Senedd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r uwchfyafrif sydd ei angen i ddiwygio'r Senedd, gan gynnwys y mesur trawsnewidiol o Senedd fwy o faint a mwy chyfrannol erbyn etholiad y Senedd yn 2026, roedd o'r farn y byddai gan system rhestr gyfrannol rinweddau derbyniol hefyd mewn ffordd nad oes gan y System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol – sy'n cynnwys elfen sylweddol o'r cyntaf i'r felin.

68. O ganlyniad i hyn, nid oedd mwyafrif yr Aelodau yn ffafrio'r opsiwn hwn. Ymhlith y pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif hwn roedd y ffaith bod pleidleisio yn ôl dewis wedi'i restru yn system anghyfarwydd yng Nghymru ac y byddai'r dull o drosi pleidleisiau i seddi yn cael ei ystyried yn gymhleth ac yn anodd ei egluro. Mynegwyd pryder hefyd y gallai cymhelliad i apelio at gefnogwyr ymgeiswyr eraill am eu hail ddewis a dewisiadau pellach gael yr effaith anfwriadol o gyfyngu ar drafodaeth gyhoeddus, neu gynnig dewisiadau amgen o ran polisi. Nodwyd hefyd mai canlyniad anfwriadol posibl y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy oedd y gallai pleidiau o bosibl amrywio nifer yr Aelodau sy'n sefyll mewn etholaethau penodol, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o bleidleisiau'n cael eu bwrw ar gyfer ei Aelodau. Nodwyd hefyd oherwydd y byddai'r cyhoedd yn gallu gwneud dewisiadau cynnil rhwng ymgeiswyr, o dan y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy gallai'r cyhoedd o bosibl ffafrio ymgeiswyr o un rhyw dros y llall, a allai effeithio ar gymhwyso cwtâu rhywedd (a argymhellir ym mhennod 5), neu fel arall unrhyw gwtâu y gallai pleidiau ddewis eu mabwysiadu o wirfodd.

³¹ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

Cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestrau

69. System etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg oedd dewis amgen dilys³² y Panel Arbenigol i'r Bleidlais Sengl Drosoglwyddadwy pe na bai ei argymhellion ar ymyriadau deddfwriaethol i gefnogi ac annog amrywiaeth cynrychiolaeth yn cael eu gweithredu.

70. Mae Tabl 3: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg, fel y'u nodwyd gan y Panel Arbenigol.

Tabl 3: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg

Cryfderau	Cyfyngiadau
▪ Roedd gwaith modelu'r Panel Arbenigol yn dangos cyfranoldeb eang. ▪ Byddai gan yr Aelodau a etholir ym mhob etholaeth gysylltiad uniongyrchol â'u hetholwyr. ▪ Caiff yr holl Aelodau eu hethol yn yr un ffordd ac mae ganddynt yr un mandad. ▪ Gellid cynnwys mesurau yn y system i gefnogi ac annog amrywiaeth, er enghraifft cwtâu ar gyfer yr ymgeiswyr neu restrau o ddynion a menywod am yn ail. ▪ Mae gan bleidleiswyr hyblygrwydd i ddewis naill ai ymgeisydd unigol neu blaid, gan sicrhau cydbwysedd rhwng dewis y pleidleiswyr a dylanwad y pleidiau.	▪ Un bleidlais yn unig fyddai gan bleidleiswyr, ond gallai'r dewis rhwng pleidleisio dros blaid neu dros ymgeisydd achosi dryswch. ▪ Gallai'r dull o drosi pleidleisiau yn seddi a enillwyd gan blaid, a pha ymgeiswyr sy'n cael y seddi hynny, gael ei ystyried yn gymhleth. Ar y llaw arall, gallai canlyniad lle mae'r pleidiau yn ennill tua'r un gyfran o bleidleisiau a seddi gael ei ystyried yn syml. ▪ Lefel y trothwy ymgeiswyr sy'n penderfynu faint o ddylanwad sydd gan bleidleiswyr dros ba ymgeiswyr sy'n cael seddi a enillir gan blaid.³³

³² Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, tudalen 104

³³ Roedd y system Rhestr Hyblyg a ddatblygwyd gan y Panel Arbenigol ar ffurf 'trothwy'. O dan y system hon, y pleidiau sy'n penderfynu ar y drefn y caiff yr ymgeiswyr eu henwi ar y papur pleidleisio. Os na fydd yr un ymgeisydd yn cael digon o bleidleisiau personol i gyrraedd trothwy penodol, byddai'r ymgeiswyr yn cael unrhyw seddi a enillwyd gan y blaid yn y drefn a ffefrir gan y blaid honno. Os caiff ymgeisydd fwy o bleidleisiau personol na'r trothwy, mae'r ymgeisydd hwnnw yn symud i frig y rhestr. Os bydd nifer o ymgeiswyr yn cael mwy o bleidleisiau na'r trothwy, maent yn cael eu trefnu yn ôl nifer y pleidleisiau a gawsant.

71. Ystyriwyd y posibilrwydd hefyd o system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig, gan nodi mai dyma un o'r systemau etholiadol a wrthodwyd gan y Panel Arbenigol, ar y sail nad oedd yn hyderus y gallai gyflawni'n ddigonol³⁴ yn erbyn ei egwyddorion.

72. Mae Tabl 4: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig, fel y'u nodwyd gan y Panel Arbenigol.

Tabl 4: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig

Cryfderau	Cyfyngiadau
▪ Yn gyfarwydd i bleidleiswyr. ▪ Un llwybr i ethol pob Aelod. ▪ Gallai sicrhau lefel uchel o gyfranodeb. ▪ Gallai hwyluso pleidiau gwleidyddol cryf a chydlynus. ▪ Gallai alluogi pleidiau i roi trefniadau ar waith sy'n blaenoriaethu grwpiau penodol o ymgeiswyr. ▪ O'i gyfuno â mesurau amrywiaeth, mae ganddi'r potensial i ddileu'r risg y bydd etholwyr yn ffafrio un rhyw uwchlaw'r llall (o'i chymharu â rhestr hyblyg).	▪ Ni chaiff pleidleiswyr ddewis rhwng ymgeiswyr unigol. ▪ Ni fyddai Aelodau unigol yn uniongyrchol atebol i bleidleiswyr.

Ein barn ni

73. Roedd mwyafrif yr Aelodau ar ein Pwyllgor, a oedd yn cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd gyfan, o blaid cyflwyno system rhestr gyfrannol. Nodwyd y byddai'r system hon yn darparu un llwybr i etholiad ar gyfer pob Aelod ac y byddai'n galluogi etholiad cymesur o Aelodau.

74. Roedd hyn yn ein gadael â phenderfyniad ynghylch a fyddem yn argymhell system rhestr gaeedig neu hyblyg.

³⁴ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 13.01

75. Roedd lleiafrif yn ein Pwyllgor (Jane Dodds AS) o'r farn na ddylid mabwysiadu rhestrau caeedig, gan gredu y byddent yn lleihau'r dewis i bleidleiswyr ac yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo peiriannau pleidiau, ac, yn benodol, yn credu y byddai mabwysiadu rhestrau caeedig yn gwanhau llinellau atebolrwydd rhwng Aelod unigol a'i etholaeth. Roedd y lleiafrif hwn yn derbyn bod perygl damcaniaethol y gallai peidio â ddefnyddio rhestrau caeedig wanhau effaith cwotâu rhywedd, ond credai'n ymarferol y byddai'r effaith yn cael ei gwrthbwysu gan y dewis gwell y byddai system agored yn ei gynnig, a fyddai hefyd yn caniatáu i bleidleiswyr sydd am fynegi ffafriaeth dros ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig wneud hynny.

76. Roedd ail leiafrif yn ein Pwyllgor (Siân Gwenllïan AS) yn ffafrio system gyfrannol rhestr agored neu hyblyg. Nododd y byddai'r systemau hyn yn galluogi ethol Aelodau gyda mandad unigol, ond yn darparu ar yr un pryd i blaid ddylanwadu ar ddethol ei hymgeiswyr. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cyfres wedi'i negodi o ganlyniadau ar yr uwchfwyafrif sydd ei angen i ddiwygio'r Senedd, roedd o'r farn y byddai system gyfrannol rhestr gaeedig yn dderbyniol. Roedd hefyd o'r farn y byddai system o'r fath yn hwyluso cyflwyno cwotâu rhywedd integredig statudol.

77. O ganlyniad i hyn, roedd mwyafrif ar ein Pwyllgor, a oedd yn cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd, yn ffafrio system gyfrannol rhestr gaeedig. Roedd y mwyafrif hwn o'r farn y byddai pleidleisiau a ddefnyddir o dan system gyfrannol rhestr gaeedig eisoes yn gyfarwydd iawn i bleidleiswyr (yn debyg i'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd i ethol Aelodau Rhanbarthol) ac y byddent yn hwyluso pleidiau gwleidyddol cryf, cydlynol. Nodwyd hefyd y byddai'r system hon yn integreiddio'n rhwydd â chyflwyno cwotâu rhywedd deddfwriaethol, ac yn hwyluso pleidiau'n cyflwyno rhestr fwy amrywiol o ymgeiswyr ar sail ehangach.

78. Mae'r mwyafrif hwn yn cydnabod na fydd y system hon yn caniatáu i'r cyhoedd ethol Aelodau unigol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ystyrir y byddai Aelodau yn y pen draw yn dal i fod yn atebol i'r etholwyr, oherwydd bydd eu perfformiad fel Aelodau unigol yn effeithio ar y pleidleisiau a fwrwyd dros eu pleidiau, a fydd yn ei dro yn pennu'r tebygolrwydd o gael eu hethol.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod y Senedd yn cael ei hethol gan ddefnyddio rhestrau cyfrannol caeedig.

Trosi pleidleisiau'n seddi

79. Elfen arwyddocaol o unrhyw system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr yw'r fformiwla a ddefnyddir i drosi pleidleisiau'n seddi. Rydym wedi ystyried a ddylid dyrannu seddi i bleidiau gan ddefnyddio fformiwla D'Hondt neu fformiwla Sainte-Laguë.

80. Ar gyfer pob rownd bleidleisio (lle caiff sedd ei dyrannu i'r blaid sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau), mae dull D'Hondt yn rhannu cyfanswm nifer y pleidleisiau a gafodd bob plaid gan nifer y seddi maent eisoes wedi'u hennill, ynghyd ag un arall. Mae hyn yn golygu unwaith y bydd plaid wedi ennill un sedd, caiff cyfanswm ei chyfran o bleidleisiau ei rhannu gan ddau ar gyfer y rowndiau pleidleisio nesaf (un sedd, ynghyd ag un arall). Unwaith y bydd plaid wedi ennill dwy sedd, caiff cyfanswm ei chyfran o bleidleisiau ei rhannu gan dri (dwy sedd, ynghyd ag un arall), ac yn y blaen.

81. Mae dull Sainte-Laguë yn gweithredu mewn modd tebyg iawn i ddull D'Hondt; yr unig wahaniaeth yw y defnyddir fformiwla wahanol i rannu cyfanswm nifer pleidleisiau'r blaid ar gyfer pob rownd. Mae fformiwla Sainte-Laguë yn rhannu'r pleidleisiau gan ddwywaith nifer y seddi sydd eisoes wedi'u hennill, ynghyd ag un arall. Mae hyn yn golygu tra bod rhannwyr dull D'Hondt yn 1, 2, 3 ac ati, mae rhannwyr dull Sainte-Laguë yn 1, 3, 5, ac ati.

82. Mae'r tablau isod yn dangos sut y gall canlyniadau etholiadol amrywio, yn dibynnu ar y system a ddefnyddir. Yn y ddau dabl dyfernir 10,000 o bleidleisiau i Blaid A, 7,000 i Blaid B, a 1,500 i Blaid C, gyda chyfanswm o chwe sedd ar gael.

Tabl 5: Efelychiad o’r dair plaid yn cael dyraniad o chwe sedd yn defnyddio fformiwla D’Hondt

Plaid A				Plaid B			Plaid C		
Cyfanswm y pleidleisiau	10000			7000			1500		
	Rhannydd (seddi wedi’u hennill +1)	Pleidleisiau wedi’u cyfrif	Sedd a ddyrannwyd?	Rhannydd (seddi wedi’u hennill +1)	Pleidleisiau wedi’u cyfrif	Sedd a ddyrannwyd?	Rhannydd (seddi wedi’u hennill +1)	Pleidleisiau wedi’u cyfrif	Sedd a ddyrannwyd?
Rownd 1	1	10000	1af	1	7000	Na	1	1500	Na
Rownd 2	2	5000	Na	1	7000	2il	1	1500	Na
Rownd 3	2	5000	3ydd	2	3500	Na	1	1500	Na
Rownd 4	3	3333	Na	2	3500	4ydd	1	1500	Na
Rownd 5	3	3333	5ed	3	2333	Na	1	1500	Na
Rownd 6	4	2500	6ed	3	2333	Na	1	1500	Na
Cyfanswm y seddi	4			2			0		

Tabl 6: Efelychiad o'r dair plaid yn cael dyraniad o chwe sedd yn defnyddio fformiwla Sainte-Laguë

	Plaid A			Plaid B			Plaid C		
Cyfanswm y pleidleisiau	10000			7000			1500		
	Rhannydd (seddi wedi'u hennill +1)	Pleidleisiau wedi'u cyfrif	Sedd a ddyrannwyd?	Rhannydd (seddi wedi'u hennill +1)	Pleidleisiau wedi'u cyfrif	Sedd a ddyrannwyd?	Rhannydd (seddi wedi'u hennill +1)	Pleidleisiau wedi'u cyfrif	Sedd a ddyrannwyd?
Rownd 1	1	10000	1af	1	7000	Na	1	1500	Na
Rownd 2	3	3333	Na	1	7000	2il	1	1500	Na
Rownd 3	3	3333	3ydd	3	2333	No	1	1500	Na
Rownd 4	5	2000	Na	3	2333	4ydd	1	1500	Na
Rownd 5	5	2000	5ed	5	1400	No	1	1500	Na
Rownd 6	7	1429	Na	5	1400	No	1	1500	6ed
Cyfanswm y seddi	3			2			1		

Ein barn ni

83. Roedd lleiafrif o Aelodau ar ein Pwyllgor (Jane Dodds AS) yn ffafrio defnyddio fformiwla Sainte-Laguë, gan ystyried y byddai'r fformiwla honno yn cynnig mwy o gyfranoldeb ac yn adlewyrchu'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw ar gyfer pleidiau llai mewn ffordd fwy cywir. Roedd y lleiafrif hwn o'r farn na fyddai'r rhesymeg ar gyfer y fformiwla D'Hondt o dan system etholiadol bresennol y Senedd – a oedd mewn gwirionedd i gywiro anghymesuredd yng nghanlyniadau etholiad yr etholaethau – yn gymwys mewn Senedd nad oedd yn cynnwys cymysgedd o restrau ac etholaethau un-aelod. Nododd hefyd fod gwaith modelu y Panel Arbenigol wedi awgrymu'n flaenorol y byddai fformiwla Sainte-Laguë yn cynhyrchu canlyniadau mwy cyfrannol na'r system etholiadol bresennol. Nododd fod gwaith modelu y Panel Arbenigol wedi nodi'n flaenorol bod fformiwla etholiadol D'Hondt yn gyffredinol yn cynhyrchu canlyniadau sy'n llai cyfrannol na'r rhai sy'n defnyddio fformiwla Sainte-Laguë, ac weithiau'n llai cyfrannol na'r system etholiadol bresennol.

84. Roedd ail leiafrif o Aelodau ar ein Pwyllgor (Siân Gwenllïan AS) hefyd yn ffafrio defnyddio fformiwla Sainte-Laguë. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r uwchfyafrif sydd ei angen i ddiwygio'r Senedd, roedd o'r farn y byddai dyrannu seddi i bleidiau drwy fformiwla D'Hondt yn dderbyniol a byddai'n fwy cyfrannol na system etholiadol bresennol y Senedd.

85. O ganlyniad i hyn, roedd mwyafrif ein Pwyllgor, sy'n cynrcyhioli uwchfyafrif deddfwriaethol yn y Senedd, o'r farn y dylid dyrannu seddi i bleidiau gan ddefnyddio fformiwla D'Hondt. Nodwyd mai dyma'r fformiwla a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer dyrannu seddi rhanbarthol i bleidiau, ac felly mae'n gyfarwydd i ryw raddau.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod seddi'n cael eu dyrannu i bleidiau gan ddefnyddio fformiwla D'Hondt.

Trothwyon Pleidleisio

86. Nododd y Panel Arbenigol yn flaenorol fod meintiau dosbarth uwch yn creu mwy o botensial ar gyfer cyfranoldeb, ac os bydd etholaethau'n mynd yn rhy fawr, gall arwain at 'hyper-gyfranoldeb'.³⁵ Mae hyper-gyfranoldeb yn disgrifio'r amgylchiadau lle mae plaid a gafodd lefel isel iawn o gefnogaeth gyhoeddus serch hynny yn sicrhau seddi yn y ddeddfwrfa – a thrwy hynny gyfreithlondeb y llwyfan etholedig. Mewn amgylchiadau o'r fath gellir gweld bod y gyfran gyfyngedig iawn hon o'r cyhoedd yn cael llais anghymesur – yn enwedig gan y gallai pleidiau o'r fath fod mewn sefyllfa fargeinio gref weithiau i ddylanwadu ar ffurfiant a pholisi'r

³⁵ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 10.19

llywodraeth. Mae hyper-gyfranoldeb yn darnio cynrychiolaeth sy'n tueddu i arwain at anawsterau wrth ffurfio llywodraethau sefydlog.

87. Mae dau fecanwaith posibl i warchod rhag hyper-gyfranoldeb. Y cyntaf yw cyfyngu ar uchafswm maint ardal etholaeth. Am y rheswm hwn, daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad yn flaenorol:

*"dylai etholaethau [...] ethol o leiaf bedwar Aelod. Yn ddelfrydol, ni ddylent ethol mwy na chwe Aelod, er y gall nifer fechan o etholaethau sydd â saith sedd fod yn dderbyniol."*³⁶

88. Yr ail fecanwaith fyddai pennu canran isafswm o bleidleisiau ar gyfer etholaeth a enillir, er mwyn i blaid fod yn gymwys i gael seddi wedi'u dyrannu iddi o dan fformiwla D'Hondt.

89. Fel y nodir ym Mhennod 7, rydym wedi argymhell mai paramedrau allweddol adolygiadau ffiniau yn y dyfodol yw bod gan y Senedd 16 o etholaethau, gyda phob un yn ethol yr un nifer o Aelodau. Fel y cyfryw, nid ydym wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol argymhell amrywiadau derbyniol o ran maint ardal, na throthwy o bleidleisiau sy'n angenrheidiol er mwyn i blaid gael seddi wedi'u dyrannu iddi o dan fformiwla D'Hondt.

Materion eraill sy'n gysylltiedig â system rhestr gyfrannol gaeedig

Papurau pleidleisio

90. Nid ydym wedi ceisio gwneud argymhellion ar ddyluniad papurau pleidleisio sy'n deillio o system rhestr gyfrannol gaeedig. Fodd bynnag, yn gyffredinol byddem yn rhagweld y bydd o leiaf rhai o enwau ymgeiswyr unigol y pleidiau yn ymddangos ar y papurau pleidleisio er gwybodaeth i bleidleiswyr.

Seddi gwag

91. Os bydd sedd wag yn codi (er enghraifft, oherwydd bod Aelod yn ymddiswyddo neu'n marw) o dan system rhestr gyfrannol gaeedig, byddem yn rhagweld y byddai hon yn cael ei llenwi wrth i'r ymgeisydd nesaf ar restr plaid ennill y sedd honno. O ystyried mai system gyfrannol fydd hon, ni welwn fawr o rinwedd mewn cynnal is-etholiad.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod lleoedd gwag sy'n codi rhwng etholiadau o dan y system rhestr gyfrannol gaeedig yn cael eu llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr plaid.

³⁶ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 10.21

Newidiadau plaid wleidyddol

92. Rydym yn cydnabod y gallai Aelodau o bosibl newid plaid wleidyddol yn ystod tymor Senedd. Gallai hyn ddigwydd yn wirfoddol, megis wrth i Aelod adael y naill blaid am y llall. Gallai ddigwydd yn anwirfoddol hefyd, megis drwy gael Aelod yn cael ei ddiarddel o'i blaid.

93. Rydym yn cydnabod y gellir dadlau, o dan system rhestr gyfrannol gaeedig, na ddylai Aelod etholedig, ar ôl cael ei ethol ar restr plaid, wedyn allu newid plaid y tu allan i etholiad. Gellir gwneud gwrth-ddadl y gallai'r etholwyr yn rhesymol ddisgwyl i'w cynrychiolwyr arfer barn ar eu rhan: a all gynnwys gadael neu newid plaid os yw'r cynrychiolydd yn credu bod hyn er budd yr etholwyr.

94. Nodwn y gellid gweld bod nifer o fanteision i ryw fath o sancsiwn yn erbyn Aelodau'n newid plaid, megis:

- mwy o sefydlogrwydd a threfn seneddol, o ganlyniad i gyfansoddiad gwleidyddol llai anwadal yn ystod tymor seneddol;
- ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'r senedd yn parhau i adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd gan etholwyr ar adeg yr etholiad blaenorol;
- arweinyddiaeth plaid gryfach; a
- rhywfaint o amddiffyniad i grwpiau gwleidyddol llai, a allai ddod i ben oherwydd bod Aelodau'n gadael.

95. Rydym hefyd yn nodi y byddai ystod o anfanteision posibl i sancsiwn o'r fath, megis:

- gwahardd Aelodau unigol rhag gadael eu plaid os oeddent yn teimlo nad oedd bellach yn adlewyrchu barn eu hetholwyr (e.e. os oedd yn ymwrthod ag ymrwymïadau maniffesto);
- gwahardd Aelodau unigol rhag anghytuno â safbwynt plaid (os oedd diarddel o blaid neu grŵp yn arwain at yr un canlyniadau â gadael yn wirfoddol³⁷) a mynegi eu barn wleidyddol bersonol; ac
- ymgaledu'r senedd fel na allai adlewyrchu newidiadau posibl yn y dirwedd wleidyddol ers yr etholiad diwethaf.

³⁷ Gellir nodi pe na bai diarddel o blaid yn cael yr un sancsiwn â dewis gadael plaid yn wirfoddol, y gallai hyn greu cymhelliad i Aelod a oedd yn dymuno newid pleidiau sy'n ceisio cael ei ddiarddel, yn hytrach nag ymadael yn wirfoddol.

96. Rydym yn rhagweld y bydd angen ystyried y mater hwn ymhellach ochr yn ochr â datblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer etholiadau yn seiliedig ar system rhestr gyfrannol gaeedig.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried canlyniadau Aelod yn newid plaid wleidyddol lle mae wedi cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig.

5. Mesurau Amrywiaeth

Yn y bennod hon rydym wedi ystyried amrywiaeth o fesurau a allai helpu i gynyddu amrywiaeth y Senedd.

97. O'r cychwyn cyntaf mewn perthynas â'n trafodaethau cynnar ar y tir cyffredin rhwng ein pleidiau gwleidyddol, roedd dymuniad clir i archwilio mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a allai helpu i gynyddu amrywiaeth y Senedd, a thrwy hynny ei galluogi i adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn well. Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod yn ystod y gwaith archwilio hwn y byddai angen inni hefyd ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i basio deddfwriaeth sy'n ymwneud â materion o'r fath. Nodir ein hystyriaeth o gymhwysedd deddfwriaethol ar ddiwedd y bennod hon.

Cwotâu rhywedd

98. Fel rhan o'i waith, ystyriodd y Panel Arbenigol sut y gallai ei gynigion ar gyfer systemau etholiadol gefnogi ac annog ethol deddfwrfa amrywiol. Roedd y Panel Arbenigol yn canolbwyntio'n bennaf ar ffyrdd o gefnogi ac annog cynrychiolaeth gytbwys ar sail rhywedd.

99. Er bod y Panel Arbenigol yn cydnabod bod gan y Senedd "enw da yn rhyngwladol sydd wedi'i hen sefydlu am hybu cydraddoldeb rhywiol", canfu fod yr enw da hwn yn "fregus" a bod "diwygio system etholiadol y Cynulliad yn gyfle i ymgorffori cydraddoldeb i fywyd gwleidyddol Cymru a'i sefydliadau cenedlaethol yn y dyfodol".

100. Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylid integreiddio cwotâu rhywedd rhagnodol i'r system etholiadol. Dywedodd hefyd y dylai cwotâu o'r fath, cyn belled ag y bo modd, gynnwys targedau gyda chosbau a chymhellion wedi'u hymgorffori. Daeth y Panel i'r casgliad bod modd i'r Senedd ddeddfu mewn ffordd a oedd yn annog cynrychiolaeth gytbwys o ran y rhywiau, ond nododd fod "cyfyngiadau sylweddol ar ei gymhwysedd".³⁸

101. Cynigiodd y Panel hefyd, pe na bai cwota rhywedd yn cael ei roi ar waith, naill ai oherwydd diffyg ewyllys wleidyddol neu resymau cymhwysedd:

"[mae] disgwyl i'r pleidiau gwleidyddol fynd ati i sicrhau bod eu prosesau o ddethol ymgeiswyr yn cefnogi ac yn annog senedd i Gymru sy'n gytbwys o

³⁸ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 12.22

*ran y rhywiau. Dylai hyn gynnwys bod y pleidiau yn mynd ati o'u gwirfodd i fabwysiadu'r cwotâu a amlinellwyd gennym."*³⁹

102. Darbwyllwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd "gan y dystiolaeth glir a chymhellol y gall cwotâu rhywedd [...] wella amrywiaeth yr ymgeiswyr".⁴⁰

103. Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein ffordd o feddwl am argymhellion posibl sy'n ymwneud â chwotâu rhywedd, buom yn siarad â nifer o randdeiliaid am eu defnydd.

104. Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod cwotâu yn un ffordd o ymdrin â chynrychiolaeth annigonol, ond bod yna gamau gweithredu eraill y gellid eu cymryd i ymdrin â rhai o'r rhwystrau isorweddol sy'n atal ymdrechion i sicrhau rhagor o amrywiaeth. Hefyd, awgrymodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol na fyddai gweithredu dros un nodwedd warchodedig o reidrwydd yn golygu y byddai cynrychiolaeth yn gwella ar gyfer nodweddion eraill hefyd. Er y clywodd y Pwyllgor fod saith o'r deg gwlad sy'n perfformio orau o ran cynrychiolaeth menywod ddim yn defnyddio cwotâu, nododd Dr Fiona Buckley a Dr Meryl Kenny fod gan lawer o'r gwledydd hyn system sefydledig o gwotâu pleidiau gwirfoddol.⁴¹

105. Roedd rhanddeiliaid eraill o'r farn bod cwotâu yn ysgogi gweithredu. Er enghraifft, awgrymodd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod mewn cyfarfod preifat mai cwotâu oedd yr offeryn unigol mwyaf effeithiol⁴² i annog cynrychiolaeth menywod mewn seneddau. Yn yr un modd, nododd Chwarae Teg werth cwota sy'n rhwymo'n gyfreithiol i fwrw ymlaen â chamau gweithredu.⁴³

106. Nododd Dr Fiona Buckley, ar ôl i gwotâu rhywedd gael eu cyflwyno yn Dáil Éireann (Tŷ'r Cynrychiolwyr yn Senedd Iwerddon) yn 2012, fod yr etholiad cyffredinol nesaf yn 2016 wedi gweld cynnydd o 40 y cant yn nifer y menywod a etholwyd. Nododd hefyd, er mwyn cymharu, mewn etholiadau llywodraeth leol ac Ewropeaidd yn Iwerddon, lle nad oedd cwotâu o'r fath ar waith, nad oedd canran y menywod a ddewiswyd yn cyrraedd yr un trothwyon â'r cwotâu a oedd ar waith ar gyfer etholiadau Dáil Éireann.⁴⁴

107. Wrth ddatblygu cwotâu, dywedodd Dr Meryl Kenny a Dr Fiona Buckley y dylem feddwl nid yn unig am gyfran yr ymgeiswyr ond hefyd y tebygolrwydd o ennill y seddi. Er enghraifft, mewn system restr, pe bai plaid yn disgwyl ennill un sedd yn unig ar gyfer etholaeth benodol, byddai'r

³⁹ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, Argymhelliad 10, tudalen 125

⁴⁰ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, paragraff 281

⁴¹ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022

⁴² Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022

⁴³ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022

⁴⁴ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022

‘pwynt uchaf’ mewn rhestr yn llawer mwy tyngedfennol na ph’un a oedd yr ymgeiswyr islaw iddi yn gytbwys. Roeddent yn dadlau y dylem anelu at gydraddoldeb fertigol a llorweddol o ran rhestrau, o fewn pob etholaeth ac ar draws yr etholaethau yn eu cyfanrwydd.⁴⁵

108. Roedd yr Athro Mona Lena Crook o blaid anelu at gwtâu mor agos at 50 y cant â phosibl yn fathemategol, ac roedd o’r farn nad oedd sancsiynau ariannol am beidio â chydymffurfio â chwtâu mor effeithiol ag ymgeiswyr yn peidio â bod yn gymwys os nad oedd rhestr yn bodloni’r cwota gofynnol. Nododd werth defnyddio iaith mewn deddfwriaeth sy’n niwtral o ran rhywedd, a pheidio ag awgrymu mai menywod yw’r ‘rhai eraill’.⁴⁶

Ein barn ni

109. Daeth ein Pwyllgor i’r casgliad unfrydol y dylid datblygu cwtâu rhywedd integredig a rhestru ‘am-yn-ail’ gorfodol fel rhan o’r system rhestr newydd. Tra’n cydnabod y bydd angen trafodaeth bellach wrth ddatblygu cwtâu o’r fath, rydym yn ystyried y dylai hyn gynnwys gwrthod rhestrau ymgeiswyr gan Swyddogion Canlyniadau fel sancsiwn am beidio â chydymffurfio â chwtâu deddfwriaethol.

110. Wrth ddod i’r casgliad hwn, nodwyd amrywiaeth o gyngor gennym ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno cwtâu rhywedd. Mae’n amlwg bod cwtâu rhywedd yn fater cymhleth a gallai, yn dibynnu ar fanylion y polisi a ddatblygir mewn perthynas â’r argymhellion hyn, arwain at amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chymhwysedd y byddai angen eu hystyried yn llawn. Rydym yn cydnabod bod gallu deddfwriaeth i gyflawni’r argymhelliad hwn, fel gyda phob argymhelliad, yn ymwneud â ph’un a all gael ei gyflawni o fewn cyfyngiadau cymhwysedd y Senedd.

111. Wrth benderfynu a yw Bil Senedd yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, nodwn fod diben y Bil yn allweddol. Felly, wrth ddatblygu unrhyw gynnis ar gyfer cwtâu rhywedd, bydd yn rhaid ystyried diben y cynnis yn ofalus.

112. Mae’r cynnis ar gyfer cwtâu rhywedd deddfwriaethol yn lefel uchel. Bydd angen rhoi ystyriaeth lawn i fanylion y polisi a ddatblygir mewn perthynas â’r argymhelliad hwn ac rydym yn cydnabod y bydd ond yn bosibl asesu’n gywir gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddeddfu yn y maes hwn ar ôl i’r manylion fod yn hysbys. Ar ddiwedd y bennod hon, rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau priodol i sicrhau nad yw ein hargymhellion ar ddiwygio’r Senedd ar gyfer 2026 yn cael eu rhoi mewn perygl gormodol o atgyfeiriad i’r

⁴⁵ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd, 16 Chwefror 2022

⁴⁶ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd, 16 Chwefror 2022

Goruchaf Lys neu her gyfreithiol arall. Yn amodol ar hyn, mae ein Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig.

Data Amrywiaeth Ymgeiswyr

113. Nododd adroddiad y Panel Arbenigol nad oes gofyniad ar hyn o bryd i gasglu na chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd, er y gallai pleidiau wneud hynny o'u gwirfodd.

114. Nododd y canlynol:

*"Yn ystod ein gwaith, aethom ati i geisio cael data am yr ymgeiswyr yn etholiad y Cynulliad i'n helpu i ymchwilio i systemau etholiadol; nid yw gwybodaeth o'r fath ar gael yn rhwydd. Mae diffyg gwybodaeth o'r fath yn rhwystr i bleidiau ac i ymgyrchwyr sy'n ceisio annog a sicrhau bod amrywiaeth o ymgeiswyr a chynrychiolwyr yn cael eu dewis a'u hethol."*⁴⁷

115. Nododd hefyd y gallai cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr fod yn ddefnyddiol i lywio mesurau (deddfwriaethol neu fel arall) i annog ethol Senedd fwy amrywiol.

116. Yn yr un modd galwodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd am gyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr. Roedd o'r farn y gallai cyhoeddi gwybodaeth o'r fath ynddi ei hun fod yn sbardun i bleidiau geisio bod yn fwy amrywiol, gan nodi yn ei adroddiad bod "tryloywder yn sbarduno newid."⁴⁸

117. Mae'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth eu hymgeiswyr etholiadol eisoes ar y llyfr statud yn adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("adran 106"). Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth mewn grym gan nad yw erioed wedi'i chychwyn.

118. Galwodd y Panel Arbenigol a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd am gychwyn adran 106. Yn absenoldeb darpariaeth ddeddfwriaethol, galwodd y Pwyllgor ar Ddiwygio

⁴⁷ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 12.05

⁴⁸ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 195

Etholiadol y Senedd ar bleidiau gwleidyddol i gasglu, gwneud yn ddienw a chyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr yn wirfoddol.⁴⁹

119. Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i gychwyn adran 106. Fodd bynnag, mae wedi gwrthsefyll galwadau i gychwyn y ddarpariaeth dro ar ôl tro; yn fwyaf diweddar, yn ystod dadl Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth 2022, lle nododd:

"The Government continue to keep Section 106 of the Equality Act 2010 under review but remain of the view that political parties should lead the way in improving diverse electoral representation through their own selection".⁵⁰

120. Yn ystod ein gwaith, nodwyd gennym fod gofyniad ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal arolwg o ymgeiswyr o fewn chwe mis i etholiadau llywodraeth leol⁵¹. Rhagnodir cwestiynau'r arolwg mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a gallant gynnwys cwestiynau am nodweddion gwarchodedig ymgeisydd. Diweddarwyd yr arolwg ddiwethaf mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022.⁵² Mae Rhan 4 yn gofyn cwestiynau ynghylch rhywedd, oedran, cyfrifoldebau gofalu, grŵp ethnig, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol ymgeisydd. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Weinidogion Cymru goladu a chyhoeddi'r wybodaeth o fewn 12 mis i etholiad llywodraeth leol perthnasol.

Ein barn ni

121. Mae cychwyn adran 106 y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Senedd a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn amlwg nad oes fawr o obaith y bydd y ddarpariaeth yn cael ei chychwyn gan Lywodraeth bresennol y DU yn y dyfodol agos.

122. Fodd bynnag, fe'n cynghorwyd y gallai gosod dyletswyddau ar awdurdod datganoledig yng Nghymru, megis Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau'r Senedd, i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn ffordd nad yw'n addasu Deddf Cydraddoldeb 2010, gyda gwaith drafftio gofalus, fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

123. Ar y sail hon, rydym wedi dod i'r casgliad unfrydol y byddai'n briodol i ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd gynnwys darpariaeth ar gyfer casglu a chyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr.

⁴⁹ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, Argymhellad 10

⁵⁰ Hansard, Cyfrol 820, Uwch-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, 17 Mawrth 2022, y Farwnes Stedman-Scott

⁵¹ Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 1

⁵² Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell gosod gofyniad deddfwriaethol ar Awdurdod Ddatganoledig yng Nghymru i gasglu a chyhoeddi data dienw ar amrywiaeth ymgeiswyr.

Rhannu swyddi

124. Ystyriodd y Panel Arbenigol fesurau i ymgorffori 'gweithio mewn modd sy'n ystyriol o deuluoedd' yn ethos y Cynulliad. Roedd yn argymell fel a ganlyn:

*"Dylid newid y gyfraith etholiadol a gweithdrefnau'r Cynulliad [...] er mwyn i ymgeiswyr allu sefyll i'w hethol ar sail trefniadau rhannu swyddi tryloyw [...]."*⁵³

125. Fel rhan o'r argymhelliad hwn, nododd y Panel, mewn perthynas â rhannu swyddi, y dylid sefydlu egwyddor greiddiol bod partneriaid yn cael eu trin fel pe baent yn un person, ac na ddylai'r trefniadau "achosi unrhyw gostau ychwanegol sy'n uwch na chostau un Aelod".⁵⁴

126. Roedd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn yr un modd yn ystyried y gallai:

*"rhannu swyddi helpu i ddileu rhwystrau a allai, fel arall, atal rhai pobl rhag sefyll etholiad neu wasanaethu fel Aelod o'r Senedd".*⁵⁵

127. Er iddo ganfod bod y drefn o rannu swyddi mewn llawer o broffesiynau a rolau gwleidyddol gweithredol yn dechrau dod yn fwy cyffredin, roedd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn cydnabod y byddai etholiad ar sail rhannu swyddi yn beth newydd. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn credu bod trefn rhannu swyddi yn broblem anorchfygol ac awgrymodd y dylid ystyried treialu trefn rhannu swyddi ar sail cynlluniau peilot.

128. Yn benodol, argymhellodd:

*"Dylid sefydlu gweithgor trawsbleidiol ar ddechrau'r Chweched Senedd i drafod yn fanwl y dichonoldeb o ethol ar sail rhannu swyddi a/neu rannu swyddi gweithredol yn Llywodraeth Cymru neu swyddi eraill y Senedd fel y Llywydd, Comisiynwyr, cadeiryddion pwyllgorau, neu reolwyr busnes."*⁵⁶

⁵³ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, Argymhelliad 11, tudalen 127

⁵⁴ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 12.26

⁵⁵ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, paragraff 219

⁵⁶ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, Argymhelliad 11, tudalen 111

Ein barn ni

129. Wrth ystyried rhannu swyddi, rydym wedi nodi y gallai alluogi mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr i sefyll etholiad, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldebau teuluol a chyfrifoldebau gofalu; y rhai ag anableddau; a'r rhai sydd wedi'u lleoli'n ddaearyddol ymhellach i ffwrdd o'r Senedd. Nodwn y gallai arwain at fanteision croestoriadol, gan ehangu'r cyfle i fod yn Aelod o'r Senedd i sawl cymuned, ac i bobl o sawl cymuned.

130. Rydym hefyd wedi nodi y byddai angen datrys y materion a ganlyn cyn y gellid rhoi system effeithiol ar gyfer rhannu swyddi ar waith:

- Byddai angen datblygu 'mecanwaith datrys anghydfod' i benderfynu sut y byddai anghydfodau rhwng partneriaid yn cael eu datrys.
- Gadael swydd: byddai angen gwneud penderfyniad ar sefyllfa partner pe bai'r partner arall yn gadael ei swydd yn annisgwyl. Mae'n bosibl y gallai'r partner sy'n aros gael yr opsiwn o aros yn Aelod unigol. Fel arall, pe bai un partner swydd yn gadael ei swydd, gellid ystyried bod swydd yr Aelod yn wag.
- Ymdrin â gwybodaeth a data: byddai angen i'r Aelodau Partneriaeth fod yn glir iawn gyda'u hetholwyr ac eraill ynghylch y ffordd y byddai data yn cael eu trin a phwy oedd yn eu rheoli.

131. Yn olaf, rydym wedi nodi, er bod deddfu i alluogi Aelodau i rannu swyddi yn debygol o fod o fewn cymhwysedd y Senedd, mae'r Llywydd wedi cael cyngor cyfreithiol o'r blaen yn bwrw amheuaeth ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu i Weinidogion rannu swyddi.⁵⁷ Gallai deddfu dim ond er mwyn i Aelodau rannu swyddi greu system dwy haen o Aelodau: y rhai sy'n rhannu swyddi, a'r rhai sy'n gymwys i ddod yn Weinidogion.

132. Oherwydd yr amserlen gyfyngedig sydd ar gael i'r Pwyllgor hwn ar gyfer llunio ei argymhellion, nid ydym yn credu ein bod wedi ystyried yn ddigonol ymarferoldeb galluogi etholiad ar sail rhannu swyddi i wneud argymhelliad y dylai darpariaethau ar gyfer hynny gael eu cynnwys mewn Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd.

133. Yn lle hynny, credwn y dylid ystyried y mater hwn ymhellach, er mwyn llywio newidiadau posibl i ddeddfwriaeth (i alluogi etholiad ar sail rhannu swyddi) neu i Reolau Sefydlog a

⁵⁷ Y Llywydd, Datganiad ysgrifenedig: Blaenoriaethau Diwygio Comisiwn y Cynulliad yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, "Creu Senedd i Gymru", 18 Gorffennaf 2018

gweithdrefnau'r Senedd (i alluogi rhannu swyddi ar gyfer rolau penodol - megis Cadeirydd Pwyllgor).

134. Rydym yn rhagweld y gallai hyn mewn modd defnyddiol ystyried profiadau awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru o rannu swyddi, y bydd yn ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 iddynt wneud darpariaeth yn eu trefniadau gweithredol i alluogi dau neu fwy o aelodau i rannu swyddi ar weithrediaeth, gan gynnwys swydd arweinydd gweithredol.⁵⁸

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r ddau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis Cadeirydd Pwyllgor).

Mesurau ehangach i gynyddu amrywiaeth

135. Cred y Panel Arbenigol:

*"yn gryf y byddai dethol ac ethol Cynulliad mwy amrywiol ar draws yr ystod lawn o nodweddion gwarchodedig⁵⁹ yn gwella gweithrediad y Cynulliad a'r ffordd y mae'n gweithio dros bobl Cymru ac yn eu cynrychioli."*⁶⁰

136. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ystyried bod:

*"[...] gwahaniaeth rhwng y nodweddion rhywedd a rhai o'r nodweddion gwarchodedig eraill. Er enghraifft, gallai grŵp ethnig penodol gael ei wthio i'r cyrion ar y sail mai lleiafrif bach iawn ydyw o'r boblogaeth yn yr etholaeth neu yng Nghymru ... Serch hynny, menywod yw 52 y cant o oedolion, ac felly, maent yn fwyafrif heb gynrychiolaeth ddigonol."*⁶¹

⁵⁸ Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 58

⁵⁹ Er enghraifft: oedran, anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol

⁶⁰ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 12.07

⁶¹ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 12.07

137. Ar y sail hon, roedd y Panel Arbenigol yn "canolbwyntio'n bennaf ar ffyrdd o gefnogi ac annog cynrychiolaeth gytbwys ar sail rhywedd."⁶²

138. Wrth fynd i'r afael â rhwystrau i ddethol ac ethol grwpiau ar y cyrion ar wahân i fenywod, dywedodd y Panel Arbenigol y dylid mynd i'r afael â'r rhain drwy fecanweithiau megis prosesau dethol ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol, gan nodi:

*"Wrth ddewis eu hymgeiswyr, dylai'r pleidiau hefyd ystyried materion ehangach amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, i helpu i sicrhau y caiff Cynulliad ei ethol sydd wirioneddol yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu."*⁶³

139. Dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd nad oedd wedi:

*"gallu casglu digon o dystiolaeth i ddod i farn bendant ynghylch a fyddai cwotâu amrywiaeth yn ddull priodol o sicrhau mwy o amrywiaeth yn y Senedd."*⁶⁴

140. Nododd hefyd:

*"n[a] fydd y model cwota penodol a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol ar gyfer mwyafrif heb gynrychiolaeth ddigonol o ran rhywedd o reidrwydd yn briodol ar gyfer grwpiau lleiafrifol heb gynrychiolaeth ddigonol."*⁶⁵

141. Dywedodd yr Athro Mona Lena Crook wrthym fod enghreifftiau rhyngwladol o gwotâu ar gyfer y nodweddion gwarchodedig eraill. Amlygodd, er enghraifft, fod Tiwnisia wedi defnyddio dau gwota ar yr un pryd ar gyfer rhywedd ac oedran, a bod hyn wedi rhoi hwb i gynrychiolaeth menywod ifanc. Nododd hefyd y gallai cwotâu o bosibl gael eu cynnwys o fewn cwotâu (er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i ganran o ymgeiswyr fod o dan oedran penodol, ac yna gofyniad i ganran o'r bobl ifanc hynny fod o rywedd benodol). Nododd hefyd y gallai cyfuniadau o'r fath o ran cwotâu gael canlyniadau anfwriadol (e.e. creu Senedd sy'n cynnwys menywod iau a dynion hŷn).⁶⁶

⁶² Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 12.08

⁶³ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 13.15

⁶⁴ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, paragraff 282

⁶⁵ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, paragraff 282

⁶⁶ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022

142. Yn ogystal ag argymell mesurau sydd â'r nod o annog Senedd sy'n fwy cytbwys o ran rhywedd, argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd hefyd fesurau penodol i fynd i'r afael â rhwystrau ariannol rhag sefyll etholiad. Er enghraifft, argymhellodd:

- y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i gynorthwyo pobl ag anableddau i sefyll etholiad, ac y dylid ystyried estyn y cymhwysedd i'r gronfa i grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- dylid ystyried eithrio gwariant sy'n ymwneud ag anabledd o derfynau gwariant ymgyrchu etholiadol; a
- dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth i eithrio treuliau sy'n ymwneud â chostau gofal plant ymgeisydd neu gyfrifoldebau gofalu eraill o derfynau gwariant ymgyrch etholiadol.

143. Rydym yn ardystio'r argymhellion hyn, a dderbyniwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd.⁶⁷

144. Yn ystod ein gwaith, nodwyd fod cynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i gynorthwyo pobl ag anableddau wedi bod ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, ac etholiadau'r Llywodraeth leol ym mis Mai 2022.⁶⁸ Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw nad oedd y gronfa ar gael i grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol. Nodwyd hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau i eithrio gwariant sy'n ymwneud ag anabledd o derfynau gwariant ar ymgyrchoedd etholiadol,⁶⁹ nid yw'r eithriad eto'n ymestyn i gost gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill ymgeisydd.

145. Deallwn y bydd cyfnod gwerthuso yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol i fyfrio ar lwyddiant cymharol y gronfa beilot Mynediad i Swyddi Etholedig. Yn dilyn gwerthusiad o'r fath, rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu cyfres o fesurau i fynd i'r afael â rhwystrau ariannol rhag sefyll etholiad mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026.

Ein barn ni

146. Mae cyfyngiadau amser ein gwaith wedi cyfyngu ar ein cyfle i ystyried goblygiadau cwotâu deddfwriaethol ar gyfer nodweddion gwarchodedig ar wahân i rywedd.

147. O ganlyniad i hyn, ar hyn o bryd nid ydym o'r farn ein bod mewn sefyllfa i argymell y dylid cyflwyno cwotâu ar gyfer nodweddion gwarchodedig ar wahân i rywedd, ac nid ydym yn

⁶⁷ Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Hydref 2020

⁶⁸ Datganiad ysgrifenedig: Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig, 22 Hydref 2021

⁶⁹ Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

rhagweld cwotâu o'r fath yn cael eu gweithredu ar y cyd â'n hargymhellion ar gyfer cwotâu rhywedd deddfwriaethol.

148. Yn hytrach, credwn fod angen gwneud rhagor o waith yn y Senedd i edrych yn fanwl ar y ffyrdd deddfwriaethol ac anneddfwriaethol y gellir sicrhau mwy o amrywiaeth yn y Senedd ar draws ystod ehangach o nodweddion gwarchodedig. Rydym yn rhagweld y bydd pwyllgor perthnasol yn penderfynu sut y gellir ystyried hyn yn y ffordd orau (er enghraifft drwy'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad).

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod pwyllgor perthnasol yn ystyried sut y gellir gwneud rhagor o waith i ystyried rhinweddau a goblygiadau cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion ar wahân i rywedd, Rydym yn rhagweld y bydd yr ystyriaeth hon yn llywio penderfyniadau ynghylch a fydd cwotâu o'r fath, mewn amser, yn fecanwaith effeithiol ar gyfer annog ethol Senedd fwy amrywiol, ar amser priodol yn y dyfodol.

149. At hynny, credwn y byddai'n briodol cymryd camau, lle bo'n bosibl, i annog amrywiaeth yn fwy eang yn y Senedd.

150. Rydym yn cytuno â sylw Dr Meryl Kenny, mewn cyfarfod preifat, y dylid ystyried cwota rhywedd deddfwriaethol fel rhan o strategaeth ehangach o ran amrywiaeth, cynhwysiant a chydarddoldeb.⁷⁰ Er enghraifft, gofynnwyd i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a ddylid disgwyl i bleidiau gwleidyddol ddatblygu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd yn awgrymu mynd ymhellach, gyda gofyniad i gyhoeddi strategaethau o'r fath gan anfon neges ehangach ynghylch pwysigrwydd cynhwysiant.⁷¹

151. Fodd bynnag, i'r graddau y mae cynigion o'r fath yn gyfystyr ag annog cyfle cyfartal, nodwn nad yw'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal⁷² yn caniatáu i'r Senedd ddeddfu ar gyfer anogaeth o'r fath drwy waharddiad neu reoliad.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau sy'n annog pob plaid wleidyddol sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad Senedd i gyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan nodi sut y mae wedi ceisio hwyluso amrywiaeth o fewn ei hymgeiswyr, o leiaf chwe mis cyn etholiad y Senedd sydd wedi'i drefnu.

⁷⁰ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022.

⁷¹ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022.

⁷² Fel y nodir ym mharagraff 187 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rheoli risgiau cymhwysedd deddfwriaethol

152. Wrth ystyried y mesurau yn y bennod hon, roeddem yn ymwybodol y byddai'n rhaid i unrhyw Fil sy'n cyflwyno mesurau amrywiaeth gael ei ddrafftio mewn ffordd nad yw'n ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl, gan gynnwys y mater sy'n ymwneud â 'chyfle cyfartal'.⁷³ Fodd bynnag, mae'r mater a gedwir yn ôl sy'n ymwneud â chyfle cyfartal yn cynnwys eithriadau ac mae lle i fabwysiadu mesurau amrywiaeth sydd naill ai'n dod o fewn yr eithriadau hynny neu'n osgoi'r mater a gedwir yn ôl o ran cyfle cyfartal yn gyfan gwbl.

153. Roeddem hefyd yn ymwybodol heb gynnig deddfwriaethol manwl i'w ystyried nad yw'n bosibl dod i safbwynt pendant ynghylch cymhwysedd. Ar adeg cyhoeddi unrhyw Fil, rhaid i'r Llywydd⁷⁴ gyhoeddi datganiad yn nodi a yw'n ystyried bod gan y Senedd y pŵer i wneud y Bil ai peidio (penderfyniad ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd). Felly, nid yw'r adroddiad hwn yn rhagweld, yn rhagfarnu nac yn effeithio ar ddyfarniad y Llywydd wrth benderfynu ar gymhwysedd deddfwriaethol unrhyw ddeddfwriaeth ar ddiwygio'r Senedd.

154. Nodwyd hefyd pe bai'r Senedd yn pasio deddfwriaeth lle'r oedd ei chymhwysedd deddfwriaethol yn amwys, mae perygl y gallai gael ei hatgyfeirio at y Goruchaf Lys. Os bydd atgyfeiriad, nid oes opsiwn i'r Senedd ddiwygio Bil tra bydd yn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys.

155. Hyd yma, mae tri Bil Senedd wedi'u hatgyfeirio at y Goruchaf Lys yn flaenorol.⁷⁵ Ar gyfartaledd, cymerodd y Goruchaf Lys 10 mis i roi dyfarniad ar gyfer pob Bil o'r adeg y cafodd ei atgyfeirio. Ni waeth beth fo canlyniad unrhyw atgyfeiriad, byddai oedi o 10 mis bron yn sicr yn golygu na fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio mewn pryd i roi'r diwygiadau a fwriadwn ar gyfer etholiad 2026 ar waith.

156. Mewn cyfarfod preifat ar 9 Chwefror, cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys yn debygol o greu oedi sylweddol.⁷⁶

⁷³ O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ni all y Senedd basio deddfau sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 187 o Atodlen 7A.

⁷⁴ Gall gael ei wneud fel arall gan y Dirprwy Lywydd: Mae Rheol Sefydlog 6.18 yn nodi "Yn absenoldeb y Llywydd neu yn unol â chais ganddo, rhaid i'r Dirprwy arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf."

⁷⁵ Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, a Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

⁷⁶ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 9 Chwefror 2022

Ein barn ni

157. Rhoddir ystyriaeth i'r risgiau cymhwysedd deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'n cynigion amrywiol yn yr is-adrannau isod.

158. Fodd bynnag, fel sylw cyffredinol, mae'n hanfodol nad yw'r diwygiadau eraill i'r Senedd yr ydym wedi'u cynnig ar gyfer 2026 yn cael eu rhoi mewn perygl o atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw ein hargymhellion ar ddiwygio'r Senedd ar gyfer 2026 yn cael eu rhoi mewn perygl gormodol o atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys.

6. Ffiniau etholaethol ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026

Bydd ein hargymhellion ar faint a system etholiadol y Senedd o reidrwydd yn gofyn am newidiadau i ffiniau'r Senedd ar gyfer etholiad 2026.

159. Mae'r bennod ddilynol (Pennod 7) yn nodi ein cynigion ar gyfer adolygu holl ffiniau etholiadol y Senedd (adolygiad llawn o'r ffiniau) yn gyfnodol ar ôl etholiad 2026. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes corff adolygu ffiniau ar hyn o bryd sydd â chyfrifoldeb statudol dros adolygu ffiniau'r Senedd yn golygu nad oes digon o amser i gynnal adolygiad llawn o'r ffiniau cyn etholiad 2026.⁷⁷ O ganlyniad i hyn, bydd angen i'r ffiniau ar gyfer etholiad Senedd 2026 fod yn seiliedig ar set bresennol o 'flociau adeiladu etholiadol' sy'n cynnwys ardaloedd etholiadol neu weinyddol presennol.

160. Ystyriodd y Panel Arbenigol⁷⁸ yn flaenorol ddwy set bosibl o flociau adeiladu ar gyfer etholaethau'r Senedd: y 40 o etholaethau presennol y Senedd; a 22 o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Mae ein hystyriaeth o'r blociau adeiladu hyn - a thrydydd opsiwn, o'u seilio ar y 32 o etholaethau arfaethedig San Steffan - wedi'i nodi isod.

161. Wrth ystyried yr opsiynau hyn, nodwyd hefyd sylw cyffredinol y Panel Arbenigol, sef:

"Derbynnir yn gyffredinol mewn gweithiau academiaidd ar systemau etholiadol mai tri yw'r nifer leiaf bosibl ar gyfer maint etholaethau. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein hegwyddorion o ran cyfranoldeb ac

⁷⁷ Fel y nodir ym mhennod 7, rydym yn rhagweld y byddai adolygiad llawn o ffiniau etholaethau'r Senedd yn cymryd tua'r un faint o amser â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer adolygiadau o etholaethau Senedd y DU: dwy flynedd a 7 mis. Fel y nodir ym mhennod 7, ni ellid cychwyn yr adolygiad hwn nes i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei phasio gyntaf gan y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n flaenorol y byddai angen 12-18 mis i ddatblygu Bil Diwygio'r Senedd, yn dilyn adroddiad y Pwyllgor hwn. Hyd yn oed os tybir bod y Llywodraeth wedi cymryd yr amser lleiaf posibl i ddatblygu Bil, y cynharaf y gellid cyflwyno'r Bil felly fyddai mis Mai 2023, gan dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn gynnar yn 2024 ar y cynharaf. Mae hyn eisoes yn golygu nad oes digon o amser i adolygiad dwy flynedd a 7 mis gael ei gwblhau cyn yr etholiadau ym mis Mai 2026. At hynny, ni fyddai digon o amser i baratoi offeryn i weithredu argymhellion yr arolwg ffiniau, ac i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol baratoi ar gyfer yr etholiadau.

⁷⁸ Nid argymhellodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol fodel ffiniau penodol, gan egluro yn ei adroddiad fod yr "amgylchiadau rydym wedi gorffen ein gwaith ynddynt yn golygu nad ydym wedi dod i farn bendant am y mater hwn." tudalen 83, *Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf*

amrywiaeth cynrychiolaeth, ac i ddiogelu ein cynigion at y dyfodol yn erbyn newid demograffig, credwn y dylai maint ardal unrhyw un o'r etholaethau aml-aelod a gynigir gennym fod yn bedwar fan lleiaf.”⁷⁹

Paru 40 etholaeth bresennol y Senedd i greu 20 etholaeth aml-Aelod

162. Argymhellodd y Panel Arbenigol:

“Pe byddai'r Cynulliad yn gweithredu naill ai system etholiadol Pleidlais Sengl Drosgrwyddadwy neu Restr Hyblyg yn 2021, rydym yn argymhell y dylid ethol Cynulliad o 89 neu 90 Aelod ar sail 20 etholaeth y Cynulliad a ffurfiwyd drwy baru 40 etholaeth bresennol y Cynulliad.”⁸⁰

163. Mae Tabl 7: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r model hwn yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r model hwn, fel y'u nodwyd gan y Panel Arbenigol.


Tabl 7: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r model hwn

Cryfderau	Cyfyngiadau
▪ Yn gyfarwydd i bleidleiswyr. ▪ Amrywiant cul o faint ardaloedd gan fod maint yr etholaethau yn debyg.	▪ Byddai angen dulliau ar wahân o adolygu'r ffiniau. ▪ Potensial ar gyfer anghysondeb yn y dyfodol rhwng etholaethau'r Senedd ac ardaloedd etholiadol neu weinyddol eraill.

⁷⁹ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 14.18, tudalen 165

⁸⁰ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, Argymhelliad 6, tudalen 106

Ffigur 1: 20 o etholaethau aml-Aelod yn seiliedig ar baru etholaethau presennol y Senedd fel y cynigiwyd gan y Panel Arbenigol.⁸¹



⁸¹ 20 o etholaethau aml-Aelod yn seiliedig ar baru etholaethau presennol y Senedd fel y cynigiwyd gan y Panel Arbenigol, Ymchwil y Senedd, Mai 2022

Ein barn ni

164. Gwrthodwyd yn unfrydol y syniad o baru etholaethau presennol y Senedd i greu 20 o etholaethau newydd.

165. Nodwyd na fyddai'r opsiwn hwn yn darparu unrhyw arbedion effeithlonrwydd na buddion o ran cydffiniaeth neu aliniad â set arall o ffiniau etholiadol neu weinyddol.

Defnyddio'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol i greu 17 o etholaethau aml-Aelod

166. Fel dewis amgen i'r model 20 o etholaethau, argymhellodd y Panel Arbenigol y canlynol:

*Gallai model etholaeth aml-aelod sy'n seiliedig ar gyfuno neu rannu ardaloedd awdurdodau lleol fod yn opsiwn amgen dilys ar gyfer ethol Cynulliad o 83 neu 84 Aelod ar sail naill ai system Pleidlais Sengl Drosgrwyddadwy neu Restr Hyblyg, pe bai'r Cynulliad yn penderfynu bod yr amrywiadau ym maint ardaloedd yn dderbyniol.*⁸²

167. Roedd yr argymhelliad hwn yn seiliedig ar greu 17 o etholaethau aml-Aelod drwy gyfuno ardaloedd awdurdodau lleol bach a chanolig a rhannu'r rhai mwyaf.


168. Mae Tabl 8: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r model hwn yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r model hwn, fel y'u nodwyd gan y Panel Arbenigol.

Tabl 8: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau'r model hwn

Cryfderau	Cyfyngiadau
- Yn gyfarwydd ac yn ystyrlon i bleidleiswyr. - Symrlrwydd i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol am fod y ffiniau'n cyd-daro. - Newid yn y dyfodol o fewn rheolaeth y Senedd. - Gellid defnyddio'r mecanweithiau presennol o adolygu'r ffiniau.	Amrywiaeth o ran maint ardaloedd rhwng yr etholaethau oherwydd gwahaniaethau o ran maint a phoblogaeth.

⁸² Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, Argymhelliad 6, tudalen 106

Ffigur 2: 17 o etholaethau aml-Aelod yn seiliedig ar ardaloedd awdurdodau lleol fel a gynigiwyd gan y Panel Arbenigol.⁸³



⁸³ 17 o etholaethau aml-Aelod yn seiliedig ar ardaloedd awdurdodau lleol fel y cynigiwyd gan y Panel Arbenigol, Ymchwil y Senedd, Mai 2022

Ein barn ni

169. Roedd lleiafrif (Jane Dodds AS) yn ein pwyllgor yn ffafrio defnyddio'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol i greu 17 o etholaethau aml-Aelod.

170. Nododd y lleiafrif hwn fod gan Gymru 22 o awdurdodau lleol ers 1996, gan wneud eu ffiniau yn gyfarwydd ac yn ystyrlon i bleidleiswyr, gydag opsiynau ffiniau amgen o bosibl yn arwain at ddatgysylltiad rhwng yr etholwyr a'r cynrychiolwyr. Roedd y lleiafrif hwn o'r farn y byddai cydffinio â ffiniau o'r fath yn rhoi symlrwydd i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol, ac y gallai ddarparu arbedion effeithlonrwydd mewn adolygiadau o ffiniau yn y dyfodol gan y byddai'r ffiniau wedi'u pennu'n barhaol, gan olygu mai'r mater ar gyfer adolygiad cyfnodol fyddai nifer yr Aelodau fesul etholaeth. Cred hefyd y byddai symleiddio'r broses adolygu ffiniau (o gymharu â gwneud penderfyniadau ar ba etholaeth San Steffan oedd wedi paru â pha etholaeth) yn symleiddio'r broses o sicrhau diwygiad erbyn etholiad y Senedd yn 2026.

171. Nodwyd pe bai'r opsiwn hwn o ran ffiniau yn cael ei ddewis, y gellid o bosibl gynnwys cydffiniaeth mewn adolygiadau o ffiniau yn y dyfodol fel blaenoriaeth allweddol. Yna gallai prif amcan adolygiadau o ffiniau'r Senedd wedyn ymwneud ag addasu nifer yr Aelodau sy'n cynrychioli etholaethau penodol i ymateb i newidiadau yn y boblogaeth, yn hytrach na gwro oddi wrth y ffiniau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Tra bod y lleiafrif yn deall bod perygl damcaniaethol yn yr hirdymor gyda'r dull hwn ac y gallai arwain at faint dosbarth priodol yn fathemategol ar gyfer etholaeth benodol yn dod yn is neu'n fwy na'r amrywiad a argymhellir gan y Panel Arbenigol, teimla'n ymarferol fod y risg yn fach. Cred Jane Dodds AS fod unrhyw fanteision o gydraddoli nifer yr Aelodau fesul etholaeth yn debygol o gael eu gorbwyso gan fanteision ffiniau etholaethol parhaol, cyfarwydd a chlir, cyhyd ag y bod cyfanswm nifer yr etholwyr fesul Aelod yn parhau i fod yn gymharol gyson. Nodwyd fod etholwyr eisoes yn derbyn ac yn gyfarwydd â gwahaniaethau yn nifer y cynghorwyr fesul ward llywodraeth leol a oedd yn debygol o fod yn fwy na'r rhai sy'n ymwneud â'r Senedd, ar sail y cyfrifiadau a wnaed gan y Panel Arbenigol.

172. Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif y Pwyllgor, a oedd yn cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd, yn ffafrio'r dull hwn. Un o bryderon allweddol y mwyafrif hwn oedd y byddai'r dull hwn o reidrwydd yn golygu amrywiadau ym meintiau ardal etholaethau o ganlyniad i wahaniaethau maint a phoblogaeth. Roedd y mwyafrif hwn yn ffafrio defnyddio etholaethau a oedd yn weddol debyg o ran poblogaeth, i alluogi dim amrywiad ym meintiau ardal gwahanol etholaethau. Roedd y mwyafrif hwn o'r farn y byddai'n annymunol i rai ardaloedd yng Nghymru gael llai o gynrychiolaeth nag eraill (h.y. gan y byddai gan rai ardaloedd lai o Aelodau nag eraill).

Defnyddio'r 32 o etholaethau arfaethedig San Steffan i greu 16 o etholaethau aml-Aelod

173. O dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020, mae fformiwla fathemategol wedi pennu mai nifer o etholaethau Senedd y DU a ddyrennir i Gymru o dan y Ddeddf yw 32. Er, yn unol â'r Ddeddf, mae'n sicr y bydd nifer yr etholaethau a ddyrennir i Gymru yn gostwng o 40 i 32, mae cyfansoddiad yr etholaethau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

174. Felly, model ffiniau amgen ar gyfer y Senedd fydd defnyddio'r 32 o etholaethau hyn fel set o flociau adeiladu, gan eu paru i greu 16 o etholaethau aml-Aelod.⁸⁴ Byddai hyn yn arwain at 16 o etholaethau newydd, pob un â 6 Aelod, i gynhyrchu Senedd â 96 Aelod. Nodwyd yng Nghymru fod y ffiniau a gynigiwyd gan San Steffan yn croesi ffiniau siroedd awdurdodau lleol ond nad ydynt yn croesi ffiniau wardiau awdurdodau lleol.

175. Yn flaenorol, gwrthododd y Panel Arbenigol y syniad o ddefnyddio etholaethau San Steffan (29 a gynigiwyd ar y pryd) ar y sail, ar adeg yr adroddiad hwn, fod "ansicrwydd ynghylch a gaiff cynigion yr adolygiad o ffiniau eu gweithredu, a phryd y bydd[ai] hynny,"⁸⁵ a phryder y byddai'n amhriodol i ffiniau etholaethau gael eu newid o ganlyniad i ffactorau y tu allan i reolaeth y Senedd. Nododd y Panel Arbenigol y canlynol:

*"Rydym yn cydnabod bod mantais i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol bod ffiniau etholaethau'r Cynulliad yn cyd-daro â ffiniau San Steffan. Fodd bynnag, mae'r anfanteision yn drech na'r manteision. Nid yw'r 29 etholaeth a gynigir yn rhoi digon o hyblygrwydd o ran maint y Cynulliad nac o ran y system etholiadol y gellid ei rhoi ar waith. Hefyd, nid da o beth yw bod etholaethau'r Cynulliad yn sensitif i newidiadau demograffig neu newidiadau mewn mannau eraill yn y DU, yn hytrach na ffactorau sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru."*⁸⁶

176. Fodd bynnag, ers cyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol, mae Deddf Etholaethau Seneddol 2020 wedi cael Cydsyniad Brenhinol – sy'n golygu nad yw'r ansicrwydd ynghylch a fyddai'r adolygiad yn cael ei weithredu yn ffactor mwyach. Hefyd o ganlyniad i Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020, nid oes angen cymeradwyaeth Seneddol ar argymhellion y

⁸⁴ Rydym wedi diystyru'r syniad o beidio â pharu'r etholaethau, a byddai hyn yn golygu y byddai ganddynt 3 Aelod fesul etholaeth, a fyddai'n llai cyfrannol na'r seddi rhanbarthol a etholir o dan y system bresennol.

⁸⁵ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 10.17

⁸⁶ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 14.07, tudalen 153

Comisiwn Ffiniau mwyach ac nid oes gan Weinidogion y Llywodraeth bŵer i newid argymhellion o'r fath. Mae hyn wedi helpu i leihau'r ansicrwydd ynghylch y broses hon.

177. Nodwyd hefyd fod Canolfan Llywodraethiant Cymru a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol wedi dadlau'n flaenorol yn *Ail-lunio'r Senedd*:

*"Mae ffiniau etholiadol sy'n adlewyrchu rhai eraill (neu 'gyd-ffinio' fel y'i gelwir) yn well gan eu bod yn gwneud pethau'n symlach i'r pleidleiswyr ac i'r pleidiau. Felly, mae defnyddio naill ai ffiniau San Steffan neu unedau llywodraeth leol fel uned ddaearyddol sylfaenol ar gyfer cynrychiolaeth yn well na chael unedau o feintiau gwahanol ar gyfer etholiadau lleol, datganoledig a San Steffan (fel sy'n digwydd bellach yn yr Alban)."*⁸⁷

178. Nodwyd pe bawn am ddefnyddio'r model hwn, y byddai angen penderfyniad hefyd ynghylch:

- Dylai etholaethau'r Senedd gyd-daro'n awtomatig ag etholaethau Senedd y DU (h.y. adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir i ffiniau San Steffan yn awtomatig yn ffiniau'r Senedd); neu
- Dylai etholaethau'r Senedd gyd-daro i ddechrau ag etholaethau Senedd y DU ond heb fod yn gaeth iddynt (er mwyn caniatáu ar gyfer gwyro pe bai angen).

179. Mae Tabl 9: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau adfer y cysylltiad awtomatig rhwng etholaethau'r Senedd ac etholaethau Senedd y DU yn rhoi crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau adfer y cysylltiad awtomatig rhwng etholaethau'r Senedd ac etholaethau Senedd y DU (h.y. cydffinio), fel y'u nodwyd gan y Panel Arbenigol.

Tabl 9: Crynodeb o gryfderau a chyfyngiadau adfer y cysylltiad awtomatig rhwng etholaethau'r Senedd ac etholaethau Senedd y DU

Cryfderau	Cyfyngiadau
▪ Nifer debyg o etholwyr. ▪ Symlirwydd i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol am fod y ffiniau'n cyd-daro. ▪ Byddai adfer y cysylltiad awtomatig yn dileu'r angen am	▪ Yn ddarostyngedig i newidiadau yn y dyfodol yn sgil ffactorau nad ydynt o reidrwydd yn berthnasol i Gymru. ▪ Ansicrwydd ynghylch a gaiff y cynigion eu gweithredu a phryd y bydd hynny'n digwydd.

⁸⁷ Canolfan Llywodraethiant Cymru a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol, *Ail-lunio'r Senedd*, tudalen 6

Cryfderau	Cyfyngiadau
drefniadau ar wahân ar gyfer adolygu ffiniau.	▪ Dim llawer o hyblygrwydd i bennu maint yr ardaloedd ar lefelau a fyddai'n annog cynrychiolaeth gyfrannol neu amrywiaeth o ran cynrychiolaeth.

Ffigur 3: Map o 32 o etholaethau San Steffan a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Ionawr 2022



Ein barn ni

180. Mae mwyafrif yr Aelodau ar ein Pwyllgor, sy'n cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd, wedi cytuno y dylai'r ffiniau ar gyfer etholiad 2026 fod yn seiliedig ar y 32 o etholaethau terfynol Senedd y DU a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ôl iddo orffen Adolygiad Seneddol 2023. Roeddent o'r farn y dylid paru'r etholaethau hyn⁸⁸ i greu 16 o etholaethau newydd.

181. Roedd y mwyafrif hwn o'r farn y byddai gwerth mewn defnyddio'r etholaethau a adolygwyd yn fwyaf diweddar, o ystyried y byddai angen proses gyflym ar gyfer eu paru. Roedd y mwyafrif hwn hefyd o'r farn y byddai gwerth mewn darparu i etholaethau'r Senedd gynnwys nifer cymharol gyfartal o etholwyr,⁸⁹ gyda phob un yn ethol yr un nifer o Aelodau. Ystyriwyd y byddai hyn yn osgoi unrhyw ganfyddiad fod gan rai ardaloedd yng Nghymru lai o gynrychiolaeth nag eraill.

182. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif hwn o'r farn y dylai etholaethau'r Senedd alinio, i ddechrau, ag etholaethau Senedd y DU, ond na ddylent fod yn gydffiniol (h.y. yn gysylltiedig yn awtomatig) â hwy. Byddai hyn yn golygu y gallai gwyro oddi wrth etholaethau'r DU ddigwydd mewn adolygiadau llawn o ffiniau'r Senedd yn y dyfodol.

183. Roedd y mwyafrif hwn o'r farn y byddai'r dull hwn o alinio cychwynnol, ond nid cydffinio, yn darparu manteision o ran symlrwydd i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol i ddechrau. Roeddent hefyd o'r farn bod y dull hwn yn osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau i etholaethau San Steffan yn y dyfodol (megis newid yn eu nifer), nad oes gan y Senedd reolaeth uniongyrchol drostynt.

Argymhelliad 18. Rydym yn argymhell bod etholiad 2026 yn defnyddio'r 32 o etholaethau terfynol Senedd y DU a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ôl iddo gwblhau ei Adolygiad Seneddol ar gyfer 2023. Bydd yr etholaethau hyn yn cael eu paru i greu 16 o etholaethau aml-Aelod newydd.

⁸⁸ Fel y nodir ym mhennod 7, byddai hyn drwy broses adolygu fer a gynhelir gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol a ailenwyd.

⁸⁹Ar gyfer adolygiadau o ffiniau'r DU, mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi yn Atodlen 2 nifer o Reolau ar gyfer datblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol. Mae Rheol 2 yn darparu – ar wahân i bum eithriad penodol yn y DU, gan gynnwys un yng Nghymru – fod yn rhaid i bob etholaeth gael etholwyr sy'n cyfrif am ddim llai na 95 y cant a dim mwy na 105 y cant o 'gwota etholiadol y DU'. O ganlyniad i hyn, ar wahân i Ynys Môn, rhaid i bob etholaeth Senedd y DU yng Nghymru gael etholaeth nad yw'n llai na 69,724 a dim mwy na 77,062 ar ddyddiad yr adolygiad. Fodd bynnag, gellir nodi nad yw nifer etholwyr Senedd y DU a Senedd Cymru union yr un fath, gan gynnwys gwahaniaethau o ran cymhwysedd pleidleisio pobl ifanc 16 ac 17 oed, gwladolion yr UE a thramor.

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell y dylai etholaethau'r Senedd alinio, i ddechrau, ag etholaethau Senedd y DU at ddiben etholiad 2026, ond na ddylent fod yn gydffiniol yn awtomatig.

7. Adolygiadau o'r ffiniau

Rydym wedi argymhell bod etholiad nesaf y Senedd yn seiliedig ar 32 o ffiniau Senedd y DU. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod hefyd yn ystyried anghenion hirdymor Cymru, ar gyfer 2031 a thu hwnt.

Y pŵer cyfreithiol i gynnal adolygiadau

184. Ledled y DU, mae trefniadau adolygu ffiniau wedi'u pennu mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu ar gyfer adolygiadau i'w cynnal gan gomisiynau annibynnol adolygu ffiniau.⁹⁰ Mae deddfwriaeth o'r fath hefyd yn nodi'r paramedrau sy'n berthnasol i'r adolygiadau, y fethodoleg a ddefnyddir i'w cynnal, a'r mecanweithiau ar gyfer rhoi effaith iddynt.

185. Cyn 2011, roedd ffiniau'r Senedd yn gysylltiedig yn awtomatig â ffiniau San Steffan, gydag unrhyw newidiadau a wnaed i ffiniau San Steffan yn cael eu hatgynhyrchu yn ffiniau'r Senedd. Torrodd Deddf System Bleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011 y cysylltiad hwn. O ganlyniad i hyn, nid oes darpariaethau na mecanweithiau deddfwriaethol ar waith ar gyfer adolygu ffiniau'r Senedd na dosrannu seddi i etholaethau a rhanbarthau'r Senedd.

186. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol, a basiwyd gan y Senedd, i roi pwerau a dyletswyddau i gomisiwn newydd neu gomisiwn sy'n bodoli eisoes i gynnal adolygiadau o'r ffiniau.

Pwy ddylai fod yn gyfrifol am adolygiadau o ffiniau'r Senedd?

187. Nododd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y gellid rhoi cyfrifoldeb dros adolygiadau o'r ffiniau naill ai i:

- gorff adolygu ffiniau newydd; neu

⁹⁰ Er enghraifft, pennir darpariaeth ar gyfer adolygiadau etholaethau San Steffan yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd), pennir darpariaeth ar gyfer adolygiadau etholaethau Senedd yr Alban yn Neddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004, a phennir darpariaeth ar gyfer adolygu ffiniau awdurdodau lleol yng Nghymru yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

- yr unig gorff adolygu ffiniau presennol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd: Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.⁹¹

188. Dywedodd ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru⁹² wrthym y byddai'r ddau opsiwn hyn yn hyfyw o'u safbwynt hwy, ond yn y naill achos neu'r llall, y byddai angen ystyried cyfluniad, llywodraethu, staffio ac adnoddau ariannol y corff adolygu ffiniau.⁹³

189. Mewn gohebiaeth â ni ar 25 Mawrth, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"O ran cefnogi Comisiynwyr sydd wedi'u penodi, gallai fod opsiwn mewn egwyddor i rannu'r Ysgrifenyddiaeth bresennol sy'n cefnogi'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (BCW) a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar hyn o bryd (a'i hehangu yn ôl yr angen). Mae'n debygol y byddai manteision effeithlonrwydd a rhesymoli yn deillio o wneud hynny."*⁹⁴

190. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd:

"Os sefydlir comisiwn newydd, byddai angen i'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau cysylltiedig ymdrin â materion megis enw a statws y corff, y broses benodi, taliadau i aelodau, telerau ac amodau eraill, cyllidebau, prosesau llywodraethu ac archwilio. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r ystod o faterion sy'n berthnasol o ran sefydlu cyrff cyhoeddus newydd."

Er y gellid paratoi rhai o'r dogfennau, y polisiau a'r prosesau hyn ochr yn ochr â'r broses o lunio Bil Diwygio'r Senedd, ni ellid dechrau na chadarnhau rhai elfennau tan ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Yn benodol, ni allai proses benodi ar gyfer Comisiynwyr corff newydd ddechrau cyn y cam hwn."

*[...] mae penodiadau cyhoeddus blaenorol wedi cymryd rhwng chwech ac wyth mis yn gyffredinol i'w cwblhau wrth ddefnyddio cystadleuaeth agored a phrotocolau sydd wedi'u sefydlu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (LDBCW)."*⁹⁵

⁹¹ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 150

⁹² Mae'r ddau gomisiwn ffiniau sy'n gweithredu yng Nghymru - y Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n adolygu ffiniau seneddol San Steffan, a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, sy'n adolygu ffiniau awdurdodau lleol - yn cael eu gwasanaethu gan yr un ysgrifenyddiaeth.

⁹³ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 12 Ionawr 2022

⁹⁴ Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 25 Mawrth 2022

⁹⁵ Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 25 Mawrth 2022

191. I grynhoi, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

*"[...] mae'n debygol iawn y byddai rhoi pwerau i Gomisiwn sy'n bodoli eisoes yn cymryd llai o amser na sefydlu Comisiwn cwbl newydd, yn enwedig yn sgil yr amser a gymerir i wneud penodiadau cyhoeddus i Gomisiwn newydd. Bydd hyn yn rhan bwysig, ond ymhell o fod yr unig elfen, o'r amser sydd ei angen i weithredu ar y gwaith o ddiwygio'r Senedd."*⁹⁶

192. Nodwyd fod y Comisiwn Ffiniau Neilltuedig i'r Alban yn arfer bod yn gyfrifol am adolygu etholaethau Senedd y DU yn yr Alban a ffiniau Senedd yr Alban. Yn 2017 cafodd y cyfrifoldeb dros adolygu ffiniau Senedd yr Alban ei drosglwyddo⁹⁷ o Gomisiwn Ffiniau'r Alban i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban. Yn 2021, newidiodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban ei enw⁹⁸ i Boundaries Scotland.⁹⁹

Ein barn ni

193. Rydym wedi dod i'r casgliad unfrydol y byddai'n briodol i bwerau gael eu rhoi i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiadau o ffiniau'r Senedd.

194. Yn y byrdymor, credwn fod hyn o fudd drwy beidio â mynnu proses hirfaith ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd, a fyddai'n peryglu'r amserlen gyflym sy'n ofynnol ar gyfer sicrhau diwygiadau erbyn 2026. Yn yr hirdymor, credwn y byddai'n fuddiol cynnwys mewn un corff yr arbenigedd sy'n ymwneud ag adolygu'r ffiniau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd.

Argymhelliad 20. Rydym yn argymhell y dylid rhoi'r pŵer i adolygu ffiniau'r Senedd, gan gynnwys y pŵer i ddiffinio etholaethau aml-Aelod ar gyfer etholiad 2026 i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Argymhelliad 21. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth Diwygio'r Senedd gymryd camau i ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adlewyrchu ei swyddogaethau newydd. Dylai hyn gynnwys unrhyw addasiadau priodol i'w gyfluniad, ei llywodraethiant, ei drefniadau staffio a'i adnoddau ariannol.

⁹⁶ Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 25 Mawrth 2022

⁹⁷ [Deddf yr Alban 2016, Adran 8, Adolygiad o'r ffiniau etholiadol gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban](#)

⁹⁸ [Deddf Etholiadau'r Alban \(Diwygio\) 2020 \(legislation.gov.uk\)](#)

⁹⁹ [Amdanom ni | Comisiwn Ffiniau'r Alban \(boundaries.scot\)](#)

Pa mor aml y dylid adolygu ffiniau'r Senedd?

195. Roedd adroddiad y Panel Arbenigol yn nodi fel a ganlyn:

*"[R]haid i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n diwygio system etholiadol y Cynulliad wneud trefniadau i gynnal adolygiad o'r ffiniau neu'r dosraniad seddau cyn 2026, ac ar adegau priodol wedi hynny. Mae Comisiwn Fenis¹⁰⁰ yn awgrymu dim mwy na deng mlynedd rhwng adolygiadau o ddosbarthiad seddau neu'r ffiniau etholiadol."*¹⁰¹

196. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn nodi fel a ganlyn:

*"Mae Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Democratiaeth drwy Gyfraith Cyngor Ewrop yn argymhell, er mwyn sicrhau bod gan yr holl bleidleiswyr bŵer pleidleisio cyfartal, na ddylid cael mwy na deng mlynedd rhwng adolygiadau ffiniau deddfwrfa na dosrannu seddau rhwng ei hardaloedd etholiadol. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad erydir cydraddoldeb pŵer pleidleisio a chynrychiolaeth gyda threigl amser o ganlyniad i newidiadau daearyddol neu ddemograffig, neu newidiadau i'r etholfraint."*¹⁰²

197. Dywedodd swyddogion ysgrifenyddiaeth y comisiwn ffiniau wrthym y byddai'n briodol i adolygiadau o ffiniau'r Senedd gael eu cynnal oddeutu bob dau gylch Senedd; byddai hyn yn cyd-fynd â rhaglen gyfredol arolygon etholiadol awdurdodau lleol. Nodwyd y byddai'n well cysylltu adolygiadau â chyfnod amser penodol (e.e. bob deng mlynedd) yn hytrach na thymhorau'r Senedd, rhag ofn i'r cylch etholiadol gael ei newid am unrhyw reswm.

198. Ar gyfer ffiniau Senedd y DU, cynhelir adolygiadau bob wyth mlynedd. Mae'r cyfnod ar gyfer adolygiadau wedi'i nodi yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020.¹⁰³

¹⁰⁰ Y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Democratiaeth drwy Gyfraith – sy'n fwy adnabyddus fel Comisiwn Fenis – yw corff cynghori Cyngor Ewrop ar faterion cyfansoddiadol.

¹⁰¹ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 14.27

¹⁰² Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 130

¹⁰³ (Saesneg yn unig)

"Each Boundary Commission must submit a report under subsection (1)—

(a) before 1 July 2023,

(b) before 1 October 2031, and

(c) before 1 October of every eighth year after that."

199. Wrth nodi ei bwriad i ddeddfu ar gyfer adolygiadau wyth mlynedd, eglurodd Llywodraeth y DU fod hyn yn gysylltiedig â'i bwriad i ddiddymu Deddf Seneddau Cyfnod Penodol 2011.¹⁰⁴ Er mai pum mlynedd yw'r tymor hiraf ar gyfer seneddau San Steffan, yn hanesyddol, pedair blynedd fu'r patrwm arferol. Dywedodd Llywodraeth y DU:

*"The Government is minded to consider that conducting boundary reviews every eight years strikes the right balance. An eight-year review cycle would generally allow for updated constituencies to be in place for two general elections before being reviewed in time for a third general election."*¹⁰⁵

200. Nodwyd fod Boundaries Scotland yn cynnal adolygiad cyfnodol o ffiniau Senedd yr Alban bob wyth i ddeuddeg mlynedd. Gall hefyd gynnal Adolygiad Interim o ffiniau Senedd yr Alban rhwng adolygiadau cyfnodol os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny, gyda phŵer disgrisiwn o dan Ddeddf yr Alban 1998 y gall Boundaries Scotland:

*"[...] from time to time submit to the Scottish Ministers reports with respect to the area comprised in any two or more constituencies showing the constituencies into which it recommends the area should be divided in order to give effect to the constituency rules".*¹⁰⁶

201. At hynny, mae'r Ddeddf yn nodi:

*"Boundaries Scotland may if it thinks fit cause a local inquiry to be held in respect of any constituency or constituencies."*¹⁰⁷

202. Yn ymarferol, dim ond pan fo newid i ffin ardal cyngor sy'n cyd-daro â ffin etholaeth y mae Adolygiadau Interim wedi'u cynnal yn y gorffennol.¹⁰⁸

Ein barn ni

203. Rydym o'r farn y dylid cynnal adolygiad llawn o'r ffiniau cyn etholiad 2031.¹⁰⁹

Argymhelliad 22. Rydym yn argymhell y dylid cynnal adolygiad llawn o'r ffiniau yn rhymor y Senedd hon, gyda'r argymhellion i ddod i rym o etholiad Senedd 2031 ymlaen.

¹⁰⁴ Bil Diddymu a Galw'r Senedd (Saesneg yn unig); Datganiad Ysgrifenedig (Saesneg yn unig) gan Weinidog Gwladol Swyddfa'r Cabinet, 24 Mawrth 2020

¹⁰⁵ Datganiad Ysgrifenedig (Saesneg yn unig) gan Weinidog Gwladol Swyddfa'r Cabinet, 24 Mawrth 2020

¹⁰⁶ Deddf yr Alban 1998, Atodlen 1, 3(6)

¹⁰⁷ Deddf yr Alban 1998, Atodlen 1, 9(1)

¹⁰⁸ Boundaries Scotland FAQs (Saesneg yn unig)

¹⁰⁹ Os, am ba bynnag reswm, na ellir gwneud hyn, byddai'r etholiad yn seiliedig ar y ffiniau a bennwyd yn flaenorol ar gyfer etholiad 2026.

204. Rydym yn rhagweld y byddai adolygiadau llawn o ffiniau'r Senedd yna fel arfer yn cael eu cynnal o leiaf unwaith yn ystod dau dymor y Senedd. Gan fod tymor presennol y Senedd yn bum mlynedd, byddai hyn yn golygu adolygiad o'r ffiniau o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'n briodol i amllder penodol yr adolygiadau llawn o'r ffiniau gael eu pennu wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r deddfwriaeth.

205. Nodwn hefyd y sefyllfa yn yr Alban a chredwn ei bod yn synhwyrol rhoi disgreswin cyfyngedig i gomisiwn ffiniau gynnal adolygiadau interim, yn ôl yr angen.

Argymhelliad 23. Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys gofyniad i gynnal adolygiadau llawn o'r ffiniau yn gyfnodol, gyda darpariaethau priodol cyfyngedig ar gyfer adolygiadau interim os bydd angen.

Yr angen am amserlenni ar gyfer adolygu ffiniau a dosrannu seddi?

206. Fel y nodwyd uchod, mae deddfwriaeth sy'n darparu'r pwerau sy'n sail i adolygiadau o ffiniau hefyd fel arfer yn pennu amserlenni ar gyfer cynnal yr adolygiad.

207. Rydym yn rhagweld y byddai'r amserlenni sy'n ofynnol ar gyfer adolygiad llawn o etholaethau'r Senedd yn gymharol debyg i'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer ffiniau Senedd y DU.

Ein barn ni

208. Rydym wedi dod i'r casgliad unfrydol y byddai'n fwy priodol i derfynau amser adolygiadau llawn o'r ffiniau gael eu pennu wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu deddfwriaeth briodol.

Argymhelliad 24. Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys amserlenni ar gyfer y prosesau sy'n gysylltiedig ag adolygiad llawn o'r ffiniau'r Senedd.

Paramedrau adolygu ffiniau a dosrannu seddi

209. Mae'r paramedrau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer adolygu ffiniau etholaethau Senedd y DU a Senedd yr Alban wedi'u nodi yn Atodiad 5: Trefniadau adolygu ffiniau seneddol mewn mannau eraill yn y DU.

210. Mae'r paramedrau a'r opsiynau ar gyfer adolygu etholaethau aml-Aelod yn fwy cymhleth na'r rhai ar gyfer etholaethau un aelod, y cyntaf i'r felin. Fel y nodwyd yn flaenorol, mewn etholaeth aml-Aelod, gellir sicrhau cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth (h.y. cymhareb yr Aelod i'r etholwyr) drwy addasu ffiniau etholaethau, neu nifer yr Aelodau fesul etholaeth aml-Aelod (h.y. dosraniad seddi), neu'r ddau.

211. Amlygwyd y dull hwn yn adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd:

*"[...] dull arall a ddefnyddir mewn nifer o wledydd yw addasu nifer yr Aelodau a etholir i gynrychioli pob etholaeth. Defnyddir y dull hwn yn Norwy, er enghraifft, lle y mae dosraniad 150 Aelod ar draws y 19 etholaeth aml-aelod yn cael ei gyfrifo bob wyth mlynedd ar sail fformiwla etholiadol sy'n cael ei phwysoli i ystyried poblogaeth ac ardal ddaearyddol pob etholaeth. Efallai y bydd adolygu dosraniadau seddau, yn hytrach na ffiniau etholaeth, yn arbennig o briodol mewn systemau etholiadol cyfrannol iawn sy'n gweithredu ar sail etholaethau aml-aelod lle y mae pob un yn ethol nifer fawr o Aelodau. Fodd bynnag, pan fo maint ardaloedd etholaethau aml-aelod yn is—megis o fewn yr ystod a argymhellodd y Panel Arbenigol, sef pedwar i chwe Aelod—gall fod yn anodd ystyried newidiadau llai, ond sylweddol serch hynny, yn y boblogaeth neu'r etholfraint. Beth bynnag, pe bai'r Senedd yn mabwysiadu dull o'r fath, byddai angen trefniadau adolygu ffiniau cychwynnol o hyd i sefydlu etholaethau aml-aelod priodol."*¹¹⁰

212. Nododd adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd y gallai paramedrau posibl ar gyfer adolygiadau o'r ffiniau gynnwys:

- Nifer gyffredinol yr Aelodau i'w hethol i'r Senedd;
- Nifer yr etholaethau, rhanbarthau neu ardaloedd etholiadol eraill, gan gynnwys a yw'r nifer yn sefydlog, neu a allai amrywio o ganlyniad i baramedrau eraill ac, os yw hynny'n digwydd, y terfynau isaf neu uchaf;
- Yr amrywiad derbyniol yn nifer yr Aelodau i'w hethol fesul ardal etholiadol, a/neu'r terfynau isaf neu uchaf;
- Yr amrywiad derbyniol yn nifer yr etholwyr neu boblogaeth fesul ardal etholiadol, a/neu'r terfynau isaf neu uchaf;
- Yr amrywiad derbyniol ym maint daearyddol ardaloedd etholiadol, a/neu'r terfynau isaf neu uchaf;
- A oedd trefniadau arbennig yn gymwys i ardaloedd neu gymunedau daearyddol penodol, er enghraifft ar sail eu sefyllfa ddaearyddol, eu pellter o Fae Caerdydd, amddifadedd, gwledigrwydd, neu ffactorau eraill;
- Y 'meini adeiladu' y dylid seilio etholaethau'r Senedd arnynt, er enghraifft wardiau etholiadol neu gymunedau, ac i ba raddau y gellid ystyried newidiadau i'r meini

¹¹⁰ Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, Medi 2020, paragraff 132

adeiladu o ganlyniad i adolygiadau ffiniau awdurdodau lleol neu San Steffan a oedd yn yr arfaeth, ond heb eu gweithredu eto; ac

- I ba raddau y dylid ystyried cyd-drawiad â ffiniau awdurdodau lleol neu San Steffan, gan gynnwys a ellid ystyried newidiadau i'r ffiniau hynny a oedd yn yr arfaeth, ond heb eu gweithredu eto.

213. Rydym wedi argymhell yn flaenorol y dylai cyfanswm yr Aelodau fod yn 96, ac wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, ystyrir y paramedrau eraill isod.

Nifer yr etholaethau, rhanbarthau neu ardaloedd etholiadol eraill

214. Yn y DU, y dull arferol yw bod cyfanswm yr etholaethau neu ranbarthau wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae hyn yn wir ar hyn o bryd ar gyfer Senedd y DU, Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Ym mhob achos mae'r rhif naill ai wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth berthnasol neu drwy gyfeirio at gydfffinio ag etholaethau seneddol y DU.

215. Nodwyd mai dull arall fyddai i'r ddeddfwriaeth greu pŵer i amrywio cyfanswm nifer yr etholaethau naill ai drwy is-ddeddfwriaeth neu'r Comisiwn Ffiniau. O dan y dull hwn, gan y byddai cyfanswm yr Aelodau'n sefydlog, ond y byddai nifer yr etholaethau'n amrywio, byddai amrywiadau yn nifer yr etholaethau yn golygu bod angen gwneud newidiadau i feintiau ardal yr etholaethau.

216. Nodwyd hefyd y pryderon a fynegwyd gan y Panel Arbenigol y gallai gormod o amrywiad ym maint dosbarth:

*"arwain at ganfyddiad fod mwy o gynrychiolaeth ar gyfer ardaloedd penodol yng Nghymru, neu fod rhai etholaethau yn fwy tebygol o sicrhau cynrychiolaeth gyfrannol neu amrywiaeth cynrychiolaeth o gymharu ag eraill.."*¹¹¹

Ein barn ni

217. Rydym wedi argymhell yn flaenorol y bydd 16 o etholaethau ar gyfer etholiad Senedd 2026.

218. Rydym o'r farn, mewn system etholaeth aml-Aelod, bod nifer yr etholaethau o bwysigrwydd sylfaenol wrth weithredu'r system etholiadol a chynrychioli'r etholwyr fel y dylid

¹¹¹ Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 14.22

nodi hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol ac ni ddylai comisiwn ffiniau nac is-ddeddfwriaeth allu ei addasu.

Argymhelliad 25. Rydym yn argymhell bod nifer etholaethau'r Senedd yn cael ei nodi fel 16 mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Yr amrywiad derbyniol yn nifer yr Aelodau i'w hethol fesul ardal etholiadol

219. Nododd y Panel Arbenigol yn flaenorol mai ffactor allweddol i'w ystyried wrth benderfynu ar faint gorau posibl y Senedd fyddai'r amrywiad ym maint ardal yr etholaethau aml-Aelod:

*"Os yw maint ardal yn uchel, mae'n bosibl cael mwy o gyfranoldeb. Fodd bynnag, os yw'r etholaethau'n rhy fawr, gall arwain at hyper-gyfranoldeb."*¹¹²

220. Mewn cyfarfod preifat â ni ar 23 Mawrth 2022, nododd yr Athro Alan Renwick mai'r ddau risg allweddol sy'n gysylltiedig â hyper-gyfranoldeb oedd y gallai pleidiau sy'n cael cyfran fach iawn o gyfanswm y bleidlais ennill seddi, sy'n golygu bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli'n afresymol mewn dadleuon, ac y gallai darnio system y pleidiau wneud llywodraethu yn fwy anodd.¹¹³ Dywedodd yr Athro David Farrell fod cydbwysedd i'w daro rhwng galluogi amrywiaeth ehangach o leisiau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyper-gyfranoldeb.¹¹⁴

221. Nododd adroddodd y Panel Arbenigol:

*"Derbynnir yn gyffredinol mewn gweithiau academiaidd ar systemau etholiadol mai tri yw'r nifer leiaf bosibl ar gyfer maint etholaethau. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein hegwyddorion o ran cyfranoldeb ac amrywiaeth cynrychiolaeth, ac i ddiogelu ein cynigion at y dyfodol yn erbyn newid demograffig, credwn y dylai maint ardal unrhyw un o'r etholaethau aml-aelod a gynigir gennym fod yn bedwar fan lleiaf."*¹¹⁵

222. Amlygwyd effaith bosibl hyper-gyfranoldeb hefyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn eu hadroddiad Ail-lunio'r Senedd:

"Er bod angen cynnwys amrywiaeth o leisiau mewn democratiaeth gref, mae canlyniadau negyddol posibl hefyd i system wleidyddol pan fydd cynrychiolwyr etholiadol yn 'ymrannu' yn nifer fawr o bleidiau llai. Un o'r

¹¹² Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 10.19

¹¹³ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

¹¹⁴ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

¹¹⁵ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 14.18

canlyniadau posibl i hyn yw y gallai pleidiau eithafol, sydd â chefnogaeth gyhoeddus gyfyngedig, sicrhau dilyswydd llwyfan etholedig; y gall pleidiau o'r fath ambell waith fod mewn sefyllfa fargeinio gref i ddylanwadu ar ffurfio a pholisi'r llywodraeth; a bod llywodraethau effeithiol yn anoddach eu ffurfio a'u cynnal ar draws llu o bleidiau."¹¹⁶

223. Fel y cyfryw, daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad a ganlyn:

"dylai etholaethau [...] ethol o leiaf bedwar Aelod. Yn ddelfrydol, ni ddylent ethol mwy na chwe Aelod, er y gall nifer fechan o etholaethau sydd â saith sedd fod yn dderbyniol."¹¹⁷

224. Mewn cyfarfod preifat ar 23 Mawrth 2022, dywedodd yr Athro David Farrell, pe bai'r Senedd o faint fel bod angen ardaloedd mawr, y mecanwaith arall ar gyfer lliniaru effeithiau gwaethaf hyper-gyfranoldeb yw cynnwys trothwy: h.y. pennu bod yn rhaid i blaid dderbyn isafswm canran o'r bleidlais er mwyn bod yn gymwys i ennill seddi. Dywedodd nad oedd hyn wedi bod yn angenrheidiol o dan y cynigion a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol, oherwydd nad oedd angen etholaethau a oedd yn cynnwys mwy na saith. Trafododd y Panel Arbenigol yn benodol y risgiau sy'n ymwneud â hyper-gyfranoldeb wrth fodelu'r model ffiniau awdurdodau lleol a daeth i'r casgliad nad oes dadl gref mai felly y byddai.¹¹⁸

225. Mewn cyfarfod preifat ar 16 Chwefror 2022, dywedodd Dr Fiona Buckley wrthym y byddai ardaloedd mwy o faint yn gyffredinol yn galluogi mwy o amrywiaeth yn y Senedd. Roedd yn ffafrio maint y dosbarth o saith, ond roedd o'r farn y byddai maint o bump neu fwy yn fuddiol.¹¹⁹

226. Mewn cyfarfod preifat ar 9 Chwefror 2022, awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym, er bod achos cryf i'r Senedd bennu nifer cyffredinol yr Aelodau mewn deddfwriaeth sylfaenol, a'r nifer lleiaf a mwyaf o Aelodau fesul etholaeth, y gallai fod yn benderfyniad i'r comisiwn ffiniau, drwy adolygiad ffiniau, o ran niferoedd penodol yr Aelodau fesul etholaeth.¹²⁰

227. Yn yr un modd, roedd yr Athro David Farrell o'r farn, wrth i system newydd ymsefydlu, y byddai'n werth adolygu'r ffordd y mae'n gweithredu, gan ystyried amrywiadau i faint yr ardal pe ystyriwyd y caiff pleidiau mwy neu lai eu ffafrio yn ormodol.¹²¹

¹¹⁶ Canolfan Llywodraethiant Cymru a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol, *Ail-lunio'r Senedd*, tudalen 9

¹¹⁷ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 10.21

¹¹⁸ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

¹¹⁹ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 16 Chwefror 2022

¹²⁰ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 9 Chwefror 2022

¹²¹ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 23 Mawrth 2022

Ein barn ni

228. Rydym o'r farn y byddai dyrannu chwe Aelod fesul etholaeth aml-Aelod yn sicrhau cydbwysedd rhwng caniatáu ar gyfer amrywiaeth well yn y gynrychiolaeth tra'n lliniaru yn erbyn risgiau hyper-gyfranoldeb, gan adleisio barn y Panel Arbenigol y dylai etholaethau ethol dim mwy na chwech Aelod yn ddelfrydol.

229. Nodwyd yn flaenorol y pryderon a fynegwyd gan y Panel Arbenigol y gallai gormod o amrywiad ym maint dosbarth:

*"arwain at ganfyddiad fod mwy o gynrychiolaeth ar gyfer ardaloedd penodol yng Nghymru, neu fod rhai etholaethau yn fwy tebygol o sicrhau cynrychiolaeth gyfrannol neu amrywiaeth cynrychiolaeth o gymharu ag eraill"*¹²²

230. Felly, rydym o'r farn y byddai'n briodol i bob etholaeth ethol nifer gyfartal o Aelodau fesul etholaeth aml-Aelod ac y dylid nodi hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol ac ni ddylai Comisiwn Ffiniau nac is-ddeddfwriaeth allu ei addasu.

Argymhelliad 26. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi y dylai pob etholaeth ethol yr un nifer o Aelodau o'r Senedd.

I ba raddau y dylid cynnal cyd-drawiad â wardiau awdurdodau lleol

231. Rydym yn rhagweld y dylai wardiau awdurdodau lleol ffurfio bloc adeiladu ar gyfer unrhyw adolygiad o ffiniau. Hynny yw, na fyddai'r comisiwn ffiniau yn rhannu unrhyw wardiau yn etholaethau ar wahân. Mae'r egwyddor hon i'w gweld yn eang mewn prosesau adolygu ffiniau eraill yn y DU. Byddai'r etholaethau aml-Aelod mwy sy'n cael eu cynnig yn gwneud hwn yn faen prawf hawdd ei gyrraedd.

Argymhelliad 27. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth diwygio'r Senedd ddarparu bod wardiau awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio fel y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer dylunio etholaethau ac na ddylai comisiwn ffiniau fel arfer rannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau.

I ba raddau y dylid cynnal cyd-drawiad â ffiniau San Steffan

232. Fel y nodwyd yn flaenorol, er ein bod wedi argymhell y dylai etholaethau'r Senedd gael eu halinio i ddechrau ag etholaethau Senedd y DU, ni ddylent fod yn gysylltiedig yn awtomatig â

¹²² Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 14.22

hwy. Byddai hyn yn golygu y gallai gwroddi wrth etholaethau'r DU ddigwydd mewn adolygiadau llawn yn y dyfodol.

233. Er y byddai aliniad parhaus ag etholaethau Senedd y DU yn arwain at fanteision gweinyddol, nid ydym yn ystyried hyn yn flaenoriaeth uchel o gymharu â'r paramedrau eraill yr ydym wedi'u hystyried.

Rhyngweithiad paramedrau eraill, gan gynnwys yr amrywiad derbyniol yn nifer yr etholwyr fesul etholaeth

234. Rydym wedi nodi uchod nifer o baramedrau y gellid o bosibl ofyn i gomisiwn ffiniau eu hystyried (fel y nodwyd gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd). Roedd y rhain yn cynnwys:

- amrywiad yn nifer yr etholwyr;
- amrywiad ym maint daearyddol etholaethau;
- a ddylid defnyddio unrhyw drefniadau arbennig gyda chymunedau neu ardaloedd daearyddol penodol; ac
- i ba raddau y dylid ystyried cyd-drawiad â ffiniau awdurdodau lleol neu San Steffan.

235. Mae adolygiadau o ffiniau'r DU yn cael eu llywodraethu gan reolau a nodir yn Nedd Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Y brif un yw Rheol 2, sy'n darparu – ar wahân i Ynys Môn – fod yn rhaid i bob etholaeth gael etholwyr sy'n cyfrif am ddim llai na 95 y cant a dim mwy na 105 y cant o 'gwota etholiadol y DU'.¹²³

236. Mae ffactorau eraill y gellir eu hystyried mewn adolygiadau o ffiniau'r DU hefyd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, sef:

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol
- ffiniau etholaethau presennol

¹²³ Cyfrifir cwota etholiadol y DU drwy rannu etholwyr cofrestredig y DU (llai'r pum sedd ynys warchodedig) â nifer y seddi (llai'r pum sedd ynys warchodedig). Cwota etholiadol y DU ar gyfer Adolygiad 2023, i'r rhif cyfan agosaf, yw 73,393. Felly, ar wahân i Ynys Môn, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gael etholaeth nad yw'n llai na 69,724 a dim mwy na 77,062 ar ddyddiad yr adolygiad. Cyfeirir at hyn fel yr 'ystod etholwyr statudol'

- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau
- yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath.

237. Fodd bynnag, mae gan Reol 2 flaenoriaeth. Dywedodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru:

"Bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen croesi'r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol."

238. Gall maint daearyddol cymharol etholaethau seneddol amrywio'n fawr o fewn Cymru. Mae hyn eisoes yn wir ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Senedd Cymru gydag etholaethau yng nghefn gwlad Cymru yn ymestyn dros bellteroedd enfawr o dros 100 milltir sgwâr.

239. Cynyddir effaith etholaethau mawr drwy ddefnyddio etholaethau aml-Aelod. Yn ddaearyddol, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yw'r mwyaf o bum rhanbarth etholiadol presennol Cymru - gan ei bod yn fwy o ran arwynebedd na'r pedwar rhanbarth arall gyda'i gilydd. Mae'n cynnwys Eryri yn y gogledd, arfordir gorllewinol Cymru i lawr i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ein barn ni

240. Mae cwota etholiadol y DU yn sicrhau bod etholaethau o faint tebyg. Rydym yn cytuno y dylai etholaethau gynnwys tua'r un nifer o etholwyr. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill megis cysylltiadau lleol a daearyddiaeth yn berthnasol hefyd.

241. Rydym eisoes wedi nodi ein hargymhellion y dylid nodi mewn deddfwriaeth nifer yr etholaethau, gyda phob un yn ethol nifer gyfartal o Aelodau. Yn yr un modd rydym wedi gwneud argymhelliad na ddylai comisiwn ffiniau rannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Y tu hwnt i hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng y meini prawf eraill hyn, gan sicrhau bod gan gomisiwn ffiniau yr hyblygrwydd i gynhyrchu cynigion credadwy wrth ystyried unrhyw ffactorau lleol penodol.

Argymhelliad 28. Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi fel paramedrau ar gyfer adolygiadau o'r ffiniau bod etholaethau'r Senedd yn cynnwys tua'r un nifer o etholwyr, amrywiad derbyniol yn yr etholwyr fesul etholaeth a pharamedrau perthnasol eraill.

Gweithredu adolygiad

242. Soniodd swyddogion o ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru wrthym am bwysigrwydd deddfwriaeth sy'n nodi a oedd y comisiwn ffiniau sy'n gyfrifol am ffiniau'r Senedd yn gorff gwneud penderfyniadau neu'n gorff argymell.¹²⁴

243. Mae mecanweithiau deddfwriaethol gwahanol lle gellid rhoi effaith i adolygu ffiniau neu ddosrannu seddi, gan gynnwys y prosesau craffu cymwys a rolau priodol y corff adolygu ffiniau, Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Yn draddodiadol, mae ffiniau seneddol y DU wedi bod yn destun cymeradwyaeth seneddol derfynol. Fodd bynnag, ar gyfer etholiadau'r DU, o ganlyniad i Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020, nid oes angen cymeradwyaeth Seneddol ar argymhellion y Comisiynau Ffiniau mwyach ac nid oes gan weinidogion y llywodraeth bŵer i newid argymhellion, ac eithrio pe bai'r Comisiwn Ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau.

244. Argymhellodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, yn ei adroddiad ar y Bil Etholaethau Seneddol:

*"Constituency boundaries ought to be determined independently of political influence and in accordance with rules protecting a robust and impartial determination process. The removal of Parliament's power to block Boundary Commission recommendations is constitutionally appropriate and therefore welcome."*¹²⁵

Ein barn ni

245. Rydym wedi dod i'r casgliad unfrydol na fyddai'n briodol i argymhellion y Comisiwn Ffiniau fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd neu, wrth weithredu argymhellion, i Weinidogion Cymru gael pŵer i'w newid, ac eithrio pe bai'r Comisiwn Ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau.

246. Credwn y byddai nodi hyn yn ddefnyddiol i ddileu unrhyw ganfyddiad y gallai Aelodau etholedig geisio dylanwadu ar faterion etholiadol y byddai'n fwy priodol eu gadael i gorff annibynnol.

Argymhelliad 29. Rydym yn argymell y dylai argymhellion y comisiwn ffiniau gael eu rhoi ar waith heb ofyniad am gymeradwyaeth y Senedd a heb unrhyw bŵer gan weinidogion y

¹²⁴ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 12 Ionawr 2022

¹²⁵ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, Adroddiad Rhif 13 o Sesiwn 2019–21 **Bil Etholaethau Seneddol**

llywodraeth i ddiwygio argymhellion o'r fath, ac eithrio pe bai'r comisiwn ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau.

Rhoi effaith i gynigion comisiwn ffiniau

247. Ers Deddf Etholaethau Seneddol 2020, unwaith y bydd comisiwn wedi cwblhau ei adolygiad, mae'n cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol priodol sy'n ei osod gerbron y Senedd. Unwaith y bydd y pedwar adroddiad wedi'u cyflwyno, rhaid cyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor (sy'n rhoi effaith i'r argymhellion) i'w Mawrhydi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ac o fewn pedwar mis beth bynnag, oni bai bod amgylchiadau eithriadol).

248. Credwn y byddai'n bosibl mabwysiadu proses debyg ar gyfer gweithredu argymhellion y comisiwn ffiniau mewn perthynas â ffiniau'r Senedd a gwneud hynny'n llawer cyflymach nag o fewn pedwar mis. Gall hyn ddod yn bwysig yng nghyd-destun cyflwyno diwygiadau cyn 2026.

Argymhelliad 30. Rydym yn argymhell bod Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud, o fewn amserlen realistig ond cyflym, is-ddeddfwriaeth i roi effaith i argymhellion y comisiwn ffiniau.

Y paramedrau penodol ar gyfer cynnal adolygiad cyn etholiadau'r Senedd yn 2026

249. Fel y nodwyd yn flaenorol, ar ôl siarad ag ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru (yr 'ysgrifenyddiaeth'), a'r Cwnsler Cyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad nad oes digon o amser i gynnal adolygiad llawn o'r ffiniau cyn etholiad 2026.¹²⁶

250. Yn lle hynny, rhagwelwn y byddai adolygiad byr yn cael ei gynnal gan gomisiwn ffiniau, gyda'r diben o baru 32 o etholaethau San Steffan i greu 16 o etholaethau aml-Aelod.

251. Dywedodd yr ysgrifenyddiaeth wrthym y byddai creu etholaethau aml-Aelod yn seiliedig ar etholaethau presennol yn caniatáu ar gyfer proses adolygu symlach. Mae wedi amcangyfrif y gallai hyn gael ei gwblhau o fewn 12 mis.¹²⁷

252. Rydym yn rhagweld y gallai'r adolygiad symlach hwn yn ymgorffori:

- cyfnodau ymgynghori gofynnol o bedair wythnos;

¹²⁶ Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yn ein cyfarfod preifat ar 9 Chwefror 2022, y gallai'r broses o sefydlu Comisiwn Ffiniau a chynnal adolygiad llawn bara y tu hwnt i ddechrau'r Seithfed Senedd.

¹²⁷ Cyfarfod preifat y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 12 Ionawr 2022

- tair rownd ymgynghori; ac
- ar ôl pob ymgynghoriad, bydd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru dri mis, yn hytrach na chwe mis, i ddadansoddi ymatebion a pharatoi ar gyfer y cam nesaf.

253. Mae amserlen enghreifftiol yn seiliedig ar y tybiaethau hyn wedi'i nodi isod.

Dyddiad	Gweithgaredd
Mai 2024	Deddfwriaeth yn cael Cydsyniad Brenhinol
Mai 2024	Gwaith i baratoi cynigion cychwynnol yn dechrau (3 mis cyn lansio'r ymgynghoriad)
Gorffennaf 2024	Cyhoeddi cynigion cychwynnol am gyfnod ymgynghori o 4 wythnos
Awst 2024	Cau'r ymgynghoriad ar gynigion cychwynnol
Hydref 2024	Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer ymgynghoriad arall dros 4 wythnos
Tachwedd 2024	Cau'r ymgynghoriad ar sylwadau gan eraill (yn caniatáu 3 mis ar gyfer adolygu'r ymgynghoriad a pharatoi cynigion diwygiedig ar gyfer ymgynghori arnynt)
Ionawr 2025	Cyhoeddi cynigion diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad 4 wythnos
Chwefror 2025	Cau'r ymgynghoriad ar gynigion diwygiedig (yn caniatáu 3 mis ar gyfer adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi cynigion terfynol)
Ebrill 2025	Cwblhau'r ffiniau er mwyn rhoi un flwyddyn i'r gymuned etholiadol baratoi ac i bleidiau ddewis ymgeiswyr

Ein barn ni

254. Rydym o'r farn y byddai'n briodol i ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd ragnodi amserlenni ar gyfer yr adolygiad penodol, i'w gynnal cyn etholiad 2026, at ddiben diffinio, enwi ac ymgynghori ar yr 16 o etholaethau aml-Aelod arfaethedig.

255. Rydym o'r farn y byddai'n briodol i'r adolygiad hwn ddarparu ar gyfer sawl rownd ymgynghori â'r cyhoedd, er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a meithrin eu dealltwriaeth o'r etholaethau newydd. Yna dylid atgyfnerthu'r ymwybyddiaeth hon gyda gwybodaeth briodol i'r cyhoedd unwaith y bydd y ffiniau terfynol wedi'u pennu.

256. Rydym o'r farn y byddai cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygiad o'r fath ar wyneb y Bil yn rhoi eglurder yn ystod y broses graffu, ac yn dileu'r angen am (a'r amserlenni sy'n gysylltiedig ag) is-ddeddfwriaeth i gychwyn adolygiad o'r fath.

Argymhelliad 31. Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau i alluogi proses symlach ar gyfer adolygu ffiniau, at ddiben diffinio'r 16 o etholaethau aml-Aelod arfaethedig. Dylid cwblhau hyn mewn digon o amser i allu gweithredu'r argymhellion, ac er mwyn i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol wneud paratodau angenrheidiol cyn etholiad 2026.

Atodiad 1: Cyfarfodydd preifat â rhanddeiliaid

Cyfarfu'r rhanddeiliaid a ganlyn yn breifat â'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod.

Dyddiad	Enw a sefydliad
12 Ionawr 2022	Shereen Williams MBE, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Tom Jenkins, Pennaeth Polisi a Rhaglen, Y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
9 Chwefror 2022	Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru
16 Chwefror 2022	Ruth Coombs, Pennaeth Cymru, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Geraint Rees, Pennaeth, Tîm Polisi a Materion Allanol Cymru, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Catherine Fookes, Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru Evelyn James, Rheolwr Ymgyrch Diverse 5050, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru Jessica Leimann, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru Natasha Davies, Arweinydd Polisi ac Ymchwil, Chwarae Teg Dr Meryl Kenny, Uwch-ddarlithydd Rhywedd a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caeredin

	Yr Athro Mona Lena Krook, Adran Gwyddorau Gwleidyddol, Prifysgol Rutgers Dr Fiona Buckley, Adran Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Coleg Corc
9 Mawrth 2022	Dr Jac Larnier, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd
23 Mawrth 2022	David Farrell, Ysgol Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol Coleg Dilyn Alan Renwick, Athro Gwleidyddiaeth Ddemocrataidd a Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned y Cyfansoddiad Rhys George, Cadeirydd, Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru Claire Sim, Cymorth i Aelodau a Rheolwr Cyngor, Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Colin Everett, Cadeirydd, Bwrdd Cydlynw Etholiadol Cymru Catherine Uphill, Comisiwn Etholiadol Cymru

At hynny, ar 21 Rhagfyr 2021, cymerodd y Cadeirydd ran mewn sesiwn frifio dechnegol gyda'r Athro Laura McAllister ar ran y pwyllgor.

Atodiad 2: Rhestr o'r wybodaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn wybodaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ar ôl inni ofyn a fyddent am ddiweddarau gwybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol i'n rhagflaenwyr.

- Y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol
- Y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Yr Arglwydd Lisvane
- Make Votes Matter
- Peter Varley
- Yr Athro Paul Chaney
- Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru
- Y Comisiwn Etholiadol
- Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Yr ymgyrch o blaid cwotâu rhywedd a mesurau amrywiaeth cryfach
- Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
- Llywodraeth Cymru
- Plaid Cymru

Atodiad 3: Egwyddorion allweddol y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad

Pennodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad yr egwyddorion allweddol a ganlyn er mwyn asesu'r gwahanol systemau etholiadol yn eu herbyn:

- **Atebolrwydd ac effeithiolrwydd y llywodraeth:** dylai'r system annog llywodraeth effeithiol, atebol a sefydlog, boed ganddi fwyafrif neu boed yn glymblaid.
- **Cyfranoldeb:** ni ddylai'r system gael cynrychiolaeth sy'n llai cyfrannol na threfniadau etholiadol presennol y Cynulliad, a dylai, o ddewis, fod yn fwy cyfrannol.
- **Atebolrwydd Aelodau:** dylai'r system sicrhau bod yr holl Aelodau yn amlwg atebol i'r etholwyr a sicrhau y gallant gynrychioli'r etholwyr yn effeithiol ac yn briodol er lles y wlad.
- **Statws cyfwerth:** cyn belled ag y bo modd, dylai'r system sicrhau y caiff yr holl Aelodau eu hethol â mandad lled gyfwerth, sy'n rhoi statws cyfartal iddynt.
- **Amrywiaeth:** dylai'r system annog a chefnogi canlyniad lle yr etholir cynrychiolwyr sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yn fras.
- **Rhoi dewis i bleidleiswyr:** lle bo hynny'n bosibl o fewn dyluniad y system, dylai ganiatáu i bleidleiswyr ddethol neu ddangos eu dewis o ran ymgeiswyr unigol.
- **Mandad cyfwerth:** dylai'r system adlewyrchu'r egwyddor gyffredinol wrth wraidd dyluniad systemau pleidleisio drwy sicrhau bod pob pleidlais tua'r un gwerth, a seddi'n cael eu dosrannu gan ystyried niferoedd yr etholaeth a daearyddiaeth.
- **Ffiniau:** dylai'r system fod yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol wedi'u diffinio'n glir, sy'n golygu rhywbeth i bobl ac sy'n ystyried cymunedau presennol, ynghyd â ffiniau etholiadol a gweinyddol presennol.
- **Symrlrwydd:** dylai'r system gael ei dylunio gan roi sylw i symrlrwydd ac eglurder i bleidleiswyr.

- **Cynaliadwyedd a'r gallu i addasu:** dylai fod modd gweithredu'r system erbyn 2021, ac ymateb ac addasu o ganlyniad i newid yn y tueddiadau, yr anghenion a'r amgylchiadau gwleidyddol, demograffig a deddfwriaethol.

Atodiad 4: Systemau etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr

Beth yw systemau etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol ar sail Rhestr?

Nododd y Panel Arbenigol:

"Er bod sawl math o systemau Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr, a phob un ohonynt yn gweithredu mewn ffordd wahanol, yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod y pleidiau yn llunio rhestrau o ymgeiswyr i etholwyr bleidleisio drostynt mewn etholaethau aml-aelod. Caiff ymgeiswyr annibynnol eu hystyried yn rhestr o un. Yn gyffredinol, un bleidlais sydd gan etholwyr (ond weithiau gall fod ganddynt fwy nag un bleidlais mewn rhai amrywiadau ar y system). Mae pa un a all pleidleiswyr fwrw pleidlais ar gyfer plaid ynteu ar gyfer ymgeisydd unigol yn dibynnu a yw'r system restr yn agored, yn gaeedig neu'n hyblyg. Ym mhob achos, caiff y pleidleisiau eu cyfuno ar draws y pleidiau i benderfynu ar nifer y seddau a gaiff pob plaid. Mae pa ymgeiswyr sy'n cael y seddau hynny yn dibynnu i ba raddau y mae'r pleidiau'n rheoli pwy sydd ar y papur pleidleisio a threfn derfynol yr ymgeiswyr."¹²⁸

Er bod system restr agored a system restr gaeedig yn eistedd ar ddau begwn y sbectrwm, gellir ystyried bod unrhyw beth yn y canol yn restr hyblyg. O ystyried amrywioldeb systemau restr hyblyg, mae'r Panel Arbenigol wedi cynllunio a chynnig system restr hyblyg benodol (gweler isod), gan argymhell y byddai'n ddewis amgen addas i'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy a ffefrir ganddynt.

Isod, mae disgrifiad byr o bob math o system ar sail restr (agored, hyblyg a chaeedig).

Rhestr agored

Mewn system restr agored, rhaid i bleidleiswyr bleidleisio dros ymgeisydd unigol. Bydd pleidiau yn cael seddi ar sail cyfanswm y pleidleisiau y mae eu hymgeiswyr yn eu cael. Os dyfernir un sedd i blaid, bydd yr ymgeisydd o'r blaid honno sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill sedd; os dyfernir dwy sedd i'r blaid, bydd y ddau ymgeisydd o'r blaid honno sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill dwy sedd ac ati.

¹²⁸ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, paragraff 13.33

Rhestr gaeedig

Mewn system rhestr gaeedig, rhaid i bleidleiswyr bleidleisio dros blaid (mae ymgeiswyr annibynnol yn cyfrif fel plaid o un). Dyfernir seddi i bleidiau ar sail faint o bleidleisiau y maent yn eu cael. Os dyfernir un sedd i blaid, bydd yr ymgeisydd cyntaf a restrir ar gyfer y blaid honno yn ennill sedd; os dyfernir dwy sedd i'r blaid, bydd y ddau ymgeisydd cyntaf yn ennill seddi, ac ati.

Rhestr hyblyg

Gall system Rhestr Hyblyg gael ei gweithredu mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, dyma sut y disgrifiodd y Panel Arbenigol y system a argymhellwyd ganddo (fel dewis amgen addas i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy):

[...] byddai gan bleidleiswyr un bleidlais. Gallent ddewis bwrw'r bleidlais dros blaid—a fyddai'n cael ei dehongli fel pleidlais dros ymgeiswyr y blaid yn y drefn a luniwyd ganddi—neu dros ymgeisydd unigol ar restr plaid. Yn gyntaf, byddai pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer ymgeiswyr unigol ar y rhestr yn cael eu cyfrif fel rhan o gyfanswm cyfun y blaid i benderfynu faint o seddau a enillodd. Yna, byddent yn cael eu cyfrif ar wahân i benderfynu a gafodd unrhyw ymgeisydd ddigon o bleidleisiau i symud i frig rhestr y blaid. Mae hyn yn debyg i'r system a ddefnyddir yn Sweden.¹²⁹

Gellid ystyried y papur pleidleisio ar gyfer y system Rhestr Hyblyg a gynlluniwyd gan y Panel Arbenigol fel cyfuniad o'r papurau pleidleisio ar gyfer rhestrau agored a chaeedig i bob pwrpas, lle gofynnir i'r pleidleisiwr 'bleidleisio dros un o'r pleidiau neu'r ymgeiswyr isod'. Felly, byddai'r papur yn cael ei ddylunio er mwyn caniatáu i bleidlais gael ei nodi yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr unigol.

¹²⁹ Y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad*, Tachwedd 2017, tudalen 145

Atodiad 5: Trefniadau adolygu ffiniau seneddol mewn mannau eraill yn y DU

Trefniadau adolygu ffiniau seneddol y DU

Mae'r trefniant ar gyfer adolygiad o ffiniau San Steffan yn nodi'r ffactorau y gall y Comisiynau Ffiniau eu cymryd i ystyriaeth.

Y brif un yw Rheol 2, sy'n darparu – ar wahân i bum eithriad penodol yn y DU¹³⁰ – bod yn rhaid i bob etholaeth gael etholwyr sy'n cyfrif am ddim llai na 95 y cant a dim mwy na 105 y cant o 'gwota etholiadol y DU'.¹³¹

Mae ffactorau eraill y gellir eu hystyried hefyd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, sef:

- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu a oedd yn bosibl ar 1 Rhagfyr 2020 (gweler 2.5 uchod)
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau
- yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

Fodd bynnag, mae gan Reol 2 flaenoriaeth. Dywedodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru: "Bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen croesi'r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol."

Paramedrau Adolygu Ffiniau Senedd yr Alban

Mae rheolau'r Alban yn mynnu bod yn rhaid i etholwyr pob etholaeth fod mor agos at y cyfartaledd rhifiadol ag sy'n ymarferol. Mae rheolau eraill yn cynnwys osgoi gormod o wahaniaethau rhwng etholaethau cyfagos, ystyried ffiniau awdurdodau lleol, ystyriaethau

¹³⁰ Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y DU yw Ynys Môn

¹³¹ Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol Comisiwn Ffiniau Cymru, Canllaw i Adolygiad 2023, tudalen 7, paragraff 3.1

daearyddol arbennig, ac unrhyw anghyfleustra ac unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.